



Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018

2018 dccc 3

Law Derived from the European Union (Wales) Act 2018

2018 anaw 3

Lluniwyd Nodiadau Esboniadol yn gymorth i ddeall y Ddeddf hon ac maent ar gael ar wahân.

Explanatory Notes have been produced to assist in the understanding of this Act and are available separately.

£10.00



Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb
Ewropeaidd (Cymru) 2018

2018 dccc 3

Law Derived from the European Union
(Wales) Act 2018

2018 anaw 3



Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018

2018 dccc 3

CYNNWYS

Cyflwyniad

1 Trosolwg

Cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE

2 Cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE

3 Pŵer i ddargadw cyfraith uniongyrchol yr UE

4 Ailddatgan a pharhad deddfiadau sy'n deillio o'r UE

5 Darpariaeth a wneir o dan bwerau sy'n ymwneud â'r UE i barhau i gael effaith

6 Heriau i gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sy'n codi o annilysrwydd offerynnau gan yr UE

7 Dehongli cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE

8 Rheolau tystiolaeth etc.

Pwerau pellach Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad ag ymadael â'r UE

9 Cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol

10 Gweithredu'r cytundeb ymadael

11 Pŵer i wneud darpariaeth sy'n cyfateb i gyfraith yr UE ar ôl y diwrnod ymadael

12 Adolygu'r pŵer yn adran 11(1) a machlud y pŵer

13 Ffioedd a thaliadau

Cydsyniad Gweinidogion Cymru i is-ddeddfwriaeth sydd o fewn cwrmpas cyfraith yr UE

14 Cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth

15 Cydsyniad Gweinidogion Cymru i gymeradwyo neu gadarnhau is-ddeddfwriaeth

16 Dyletswydd i adrodd ar arfer swyddogaethau o dan adrannau 14(1) a 15(1)

Cymhwysedd datganoledig

17 Ystyr cymhwysedd datganoledig



Law Derived from the European Union (Wales) Act 2018

2018 anaw 3

CONTENTS

Introduction

1 Overview

EU derived Welsh law

- 2 EU derived Welsh law
- 3 Power to retain direct EU law
- 4 Restatement and continuation of EU derived enactments
- 5 Provision made under EU related powers to continue to have effect
- 6 Challenges to EU derived Welsh law arising from invalidity of EU instruments
- 7 Interpretation of EU derived Welsh law
- 8 Rules of evidence etc.

Further powers of the Welsh Ministers in connection with withdrawal from the EU

- 9 Complying with international obligations
- 10 Implementing the withdrawal agreement
- 11 Power to make provision corresponding to EU law after exit day
- 12 Review and sunset of the power in section 11(1)
- 13 Fees and charges

Welsh Ministers' consent to subordinate legislation within the scope of EU law

- 14 Welsh Ministers' consent to making subordinate legislation
- 15 Welsh Ministers' consent to approval or confirmation of subordinate legislation
- 16 Duty to report on exercise of functions under sections 14(1) and 15(1)

Devolved competence

- 17 Meaning of devolved competence

- 18 Rheoliadau i barhau i gael effaith
- 19 Rheoliadau
- 20 Dehongli cyffredinol
- 21 Dod i rym
- 22 Diddymu'r Ddeddf hon
- 23 Enw byr

Atodlen 1 – Ffioedd a thaliadau

Atodlen 2 – Y weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau

18	Continuing effect of regulations
19	Regulations
20	General interpretation
21	Coming into force
22	Repeal of this Act
23	Short title

Schedule 1 – Fees and charges

Schedule 2 – Procedure for making regulations



Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer gweithredu o ran Cymru gyfraith sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â phynciau sydd wedi eu datganoli i'r Cynulliad, mewn cysylltiad ag ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

[6 Mehefin 2018]

Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:

Cyflwyniad

1 Trosolwg

Mae'r Ddeddf hon –

- (a) yn darparu ar gyfer gwneud, ailddatgan a phennu cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau ac yn gwneud darpariaeth gysylltiedig (adrannau 2 i 8);
- (b) yn darparu pwerau eraill i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn cysylltiad ag ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd (adrannau 9 i 13);
- (c) yn gwneud darpariaeth ynghylch rhoi cydsyniad Gweinidogion Cymru i is-ddeddfwriaeth o fewn cwrpas cyfraith yr UE sydd wedi ei gwneud gan Weinidogion y Goron ac eraill o dan swyddogaethau newydd (adrannau 14 a 15).

Cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE

2 Cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE

Yn y Ddeddf hon, ystyr "cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE" yw –

- (a) y darpariaethau a wneir mewn rheoliadau o dan adran 3 (cyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir),



Law Derived from the European Union (Wales) Act 2018

An Act of the National Assembly for Wales to make provision for the operation in relation to Wales of law derived from the European Union relating to subjects devolved to the Assembly, in connection with the withdrawal of the United Kingdom from the European Union.

[6 June 2018]

Having been passed by the National Assembly for Wales and having received the assent of Her Majesty, it is enacted as follows:

Introduction

1 Overview

This Act—

- (a) provides for the making, restatement and specification of EU derived Welsh law by the Welsh Ministers in regulations and makes connected provision (sections 2 to 8);
- (b) provides other powers for the Welsh Ministers to make provision in connection with the withdrawal of the United Kingdom from the European Union (sections 9 to 13);
- (c) makes provision about the Welsh Ministers giving consent to subordinate legislation within the scope of EU law made by Ministers of the Crown and others under new functions (sections 14 and 15).

EU derived Welsh law

2 EU derived Welsh law

In this Act, “EU derived Welsh law” means—

- (a) the provisions made in regulations under section 3 (retained direct EU law),

- (b) y darpariaethau a wneir mewn rheoliadau o dan adran 4 neu sy'n parhau mewn effaith o dan neu yn rhinwedd rheoliadau o dan yr adran honno (deddfiadau sy'n deillio o gyfraith yr UE),
- (c) y darpariaethau a wneir mewn offerynnau statudol a bennir o dan adran 5 (darpariaeth a wneir o dan bwerau sy'n ymwneud â'r UE ac sy'n parhau mewn effaith o dan adran 5), i'r graddau y maent yn cael effaith o dan yr adran honno,

fel yr ychwanegir at y corff hwnnw o gyfraith neu fel y mae'n cael ei addasu fel arall gan neu o dan y Ddeddf hon neu gan ddeddfiadau eraill o bryd i'w gilydd.

3 Pŵer i ddargadw cyfraith uniongyrchol yr UE

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig sy'n cyfateb i gyfraith uniongyrchol yr UE at ddiben parhau â'i gweithrediad, i'r graddau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol, ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.
- (2) Wrth wneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru geisio parhau â'r hawliau, y pwerau, yr atebolrwyddau, y rhwymedigaethau, y cyfyngiadau, y rhwymedïau a'r gweithdrefnau a gydnabyddir ac sydd ar gael yng nghyfraith Cymru a Lloegr yn rhinwedd adran 2(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ar adeg gwneud y rheoliadau.
- (3) Yn yr adran hon, ystyr "cyfraith uniongyrchol yr UE" yw –
 - (a) darpariaeth yng Nghytuniadau'r UE sy'n cael effaith uniongyrchol yng nghyfraith Cymru a Lloegr yn rhinwedd adran 2(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 i'r graddau nad yw ei heffaith yn cael ei hatgynhyrchu mewn deddfiad sy'n gymwys o ran Cymru ar y diwrnod y daw'r adran hon i rym (pa un a yw'r deddfiad yn rhychwantu tiriogaethau eraill neu'n gymwys iddynt ai peidio);
 - (b) darpariaeth mewn unrhyw reoliad gan yr UE, penderfyniad gan yr UE neu ddarn o ddeddfwriaeth drydyddol yr UE i'r graddau nad yw ei heffaith yn cael ei hatgynhyrchu mewn deddfiad sy'n gymwys o ran Cymru ar y diwrnod y daw'r adran hon i rym (pa un a yw'r deddfiad yn rhychwantu tiriogaethau eraill neu'n gymwys iddynt ai peidio);
 - (c) unrhyw Atodiad i gytundeb yr AEE, i'r graddau –
 - (i) y mae'n cyfeirio at unrhyw beth sy'n dod o fewn paragraff (b) neu'n cynnwys cyfaddasiadau o unrhyw beth o'r fath, a
 - (ii) nad yw ei effaith yn cael ei hatgynhyrchu mewn deddfiad sy'n gymwys o ran Cymru ar y diwrnod y daw'r adran hon i rym (pa un a yw'r deddfiad yn rhychwantu tiriogaethau eraill neu'n gymwys iddynt ai peidio);
 - (d) Protocol 1 i gytundeb yr AEE (sy'n cynnwys cyfaddasiadau llorweddol sy'n gymwys mewn perthynas ag offerynnau gan yr UE y cyfeirir atynt yn yr Atodiadau i'r cytundeb hwnnw).

- (b) the provisions made in regulations under section 4 or continuing in effect under or by virtue of regulations under that section (enactments derived from EU law),
- (c) the provisions made in statutory instruments specified under section 5 (provision made under EU related powers and continuing in effect under section 5), so far as they have effect under that section,

as that body of law is added to or otherwise modified by or under this Act or by other enactments from time to time.

3 Power to retain direct EU law

- (1) The Welsh Ministers may by regulations make provision within devolved competence corresponding to direct EU law for the purpose of continuing its operation, so far as the Welsh Ministers consider appropriate, after the United Kingdom withdraws from the European Union.
- (2) In making regulations under this section, the Welsh Ministers must seek to continue the rights, powers, liabilities, obligations, restrictions, remedies and procedures that are recognised and available in the law of England and Wales by virtue of section 2(1) of the European Communities Act 1972 at the time the regulations are made.
- (3) In this section, “direct EU law” means –
 - (a) provision in the EU Treaties that has direct effect in the law of England and Wales by virtue of section 2(1) of the European Communities Act 1972 so far as its effect is not reproduced in an enactment that applies in relation to Wales on the day this section comes into force (whether or not the enactment extends or applies to other territories);
 - (b) provision in any EU regulation, EU decision or EU tertiary legislation so far as its effect is not reproduced in an enactment that applies in relation to Wales on the day this section comes into force (whether or not the enactment extends or applies to other territories);
 - (c) any Annex to the EEA agreement, so far as –
 - (i) it refers to, or contains adaptations of, anything falling within paragraph (b), and
 - (ii) its effect is not reproduced in an enactment that applies in relation to Wales on the day this section comes into force (whether or not the enactment extends or applies to other territories);
 - (d) Protocol 1 to the EEA agreement (which contains horizontal adaptations that apply in relation to EU instruments referred to in the Annexes to that agreement).

- (4) Wrth wneud darpariaeth sy'n cyfateb i gyfraith uniongyrchol yr UE, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer (ymhlith pethau eraill) –
- (a) i beidio â chynnwys unrhyw beth yng nghyfraith uniongyrchol yr UE na fydd ganddo unrhyw gymhwysiad ymarferol o ran Cymru neu unrhyw ran o Gymru neu a fydd fel arall yn ddiangen neu'n sylweddol ddiangen;
 - (b) i beidio â chynnwys yng nghyfraith uniongyrchol yr UE swyddogaethau endidau o'r UE, neu swyddogaethau mewn perthynas ag endidau o'r UE, na fydd ganddynt swyddogaethau mwyach yn y cyswllt hwnnw o dan gyfraith yr UE mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig neu unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig;
 - (c) i beidio â chynnwys darpariaeth ar gyfer trefniadau cilyddol, neu mewn cysylltiad â threfniadau cilyddol, rhwng –
 - (i) y Deyrnas Unedig neu unrhyw ran ohoni neu awdurdod cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig, a
 - (ii) yr UE, endid o'r UE, Aelod-wladwriaeth neu awdurdod cyhoeddus mewn Aelod-wladwriaeth,
 na fyddant yn bodoli mwyach neu na fyddant yn briodol mwyach;
 - (d) i beidio â chynnwys darpariaeth ar gyfer trefniadau eraill neu mewn cysylltiad â threfniadau eraill –
 - (i) sy'n ymwneud â'r UE, endid o'r UE, Aelod-wladwriaeth neu awdurdod cyhoeddus mewn Aelod-wladwriaeth, neu
 - (ii) sydd fel arall yn ddibynol ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r UE,
 ac na fyddant yn bodoli mwyach neu na fyddant yn briodol mwyach;
 - (e) i beidio â chynnwys darpariaeth ar gyfer unrhyw drefniadau cilyddol neu unrhyw drefniadau eraill, neu mewn cysylltiad ag unrhyw drefniadau cilyddol neu unrhyw drefniadau eraill, nad ydynt yn dod o fewn paragraff (c) neu (d) ac na fyddant yn bodoli mwyach, neu na fyddant yn briodol mwyach, oherwydd i'r Deyrnas Unedig beidio â bod yn barti i unrhyw un neu ragor o Gytuniadau'r UE;
 - (f) i ddileu cyfeiriadau at yr UE yng nghyfraith uniongyrchol yr UE na fyddant yn briodol mwyach;
 - (g) i ddarparu i swyddogaethau endidau o'r UE neu awdurdodau cyhoeddus mewn Aelod-wladwriaethau sydd yng nghyfraith uniongyrchol yr UE (gan gynnwys gwneud offeryn o natur ddeddfwriaethol neu ddarparu cyllid) fod –
 - (i) yn arferadwy gan awdurdod cyhoeddus (pa un a yw newydd ei sefydlu neu a yw wedi ei sefydlu at y diben ai peidio), neu
 - (ii) yn absennol neu'n wahanol mewn darpariaeth a wneir gan y rheoliadau;
 - (h) i ddarparu ar gyfer sefydlu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni'r swyddogaethau y darperir ar eu cyfer gan reoliadau o dan yr adran hon;
 - (i) i addasu deddfiad.
- (5) Ond ni chaiff rheoliadau o dan yr adran hon –
- (a) gosod na chynyddu trethiant;
 - (b) gwneud darpariaeth ôl-weithredol;

- (4) In making provision corresponding to direct EU law, the Welsh Ministers have the power (among other things) –
- (a) to not include anything in direct EU law that will have no practical application in relation to Wales or any part of Wales or will be otherwise redundant or substantially redundant;
 - (b) to not include functions in direct EU law of, or in relation to, EU entities that will no longer have functions in that respect under EU law in relation to the United Kingdom or any part of the United Kingdom;
 - (c) to not include provision for, or in connection with, reciprocal arrangements between –
 - (i) the United Kingdom or any part of it or a public authority in the United Kingdom, and
 - (ii) the EU, an EU entity, a member State or a public authority in a member State,that will no longer exist or will no longer be appropriate;
 - (d) to not include provision for, or in connection with, other arrangements that –
 - (i) involve the EU, an EU entity, a member State or a public authority in a member State, or
 - (ii) are otherwise dependent upon the United Kingdom’s membership of the EU,and that will no longer exist or will no longer be appropriate;
 - (e) to not include provision for, or in connection with, any reciprocal or other arrangements not falling within paragraph (c) or (d) that will no longer exist, or will no longer be appropriate, as a result of the United Kingdom ceasing to be a party to any of the EU Treaties;
 - (f) to remove EU references in direct EU law that will no longer be appropriate;
 - (g) to provide for functions in direct EU law of EU entities or public authorities in member States (including making an instrument of a legislative character or providing funding) to be –
 - (i) exercisable by a public authority (whether or not newly established or established for the purpose), or
 - (ii) absent or different in provision made by the regulations;
 - (h) to provide for the establishment of public authorities to carry out functions provided for by regulations under this section;
 - (i) to modify an enactment.
- (5) But regulations under this section may not –
- (a) impose or increase taxation;
 - (b) make retrospective provision;

- (c) creu trosedd berthnasol;
 - (d) rhoi swyddogaeth i un o Weinidogion y Goron na gosod swyddogaeth arno;
 - (e) dileu nac addasu swyddogaeth cyn cychwyn un o Weinidogion y Goron oni bai bod gwneud hynny yn gysylltiedig â darpariaeth arall sydd wedi ei chynnwys yn y rheoliadau neu'n ganlyniadol iddi.
- (6) Rhaid i reoliadau o dan yr adran hon –
- (a) cael eu gwneud cyn y diwrnod ymadael, a
 - (b) peidio â dod i rym cyn y diwrnod ymadael.

4 Ailddatgan a pharhad deddfiadau sy'n deillio o'r UE

- (1) Mae'r pŵer yn is-adran (2) yn gymwys i ddeddfiad –
- (a) os cafodd ei basio neu ei wneud, neu os yw'n gweithredu, yn gyfan gwbl neu i ryw raddau at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2)(a) neu (b) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (pa un a yw wedi ei wneud o dan adran 2(2) o'r Ddeddf honno neu baragraff 1A o Atodlen 2 iddi ai peidio), neu
 - (b) os yw'n ymwneud fel arall â'r UE neu'r AEE at bob diben neu at rai dibenion.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau –
- (a) diddymu neu ddirymu deddfiad sydd o fewn cymhwysedd datganoledig yn gyfan gwbl;
 - (b) datgymhwyso deddfiad sydd o fewn cymhwysedd datganoledig yn gyfan gwbl neu'n rhannol, i'r graddau y mae o fewn cymhwysedd datganoledig;
 - (c) ailddatgan deddfiad a ddiddymir neu a ddirymir o dan baragraff (a) gyda neu heb addasiadau o fewn cymhwysedd datganoledig;
 - (d) ailddatgan deddfiad a ddatgymhwysir o dan baragraff (b), i'r graddau y mae wedi ei ddatgymhwyso, gyda neu heb addasiadau o fewn cymhwysedd datganoledig;
 - (e) gwneud darpariaeth bellach o fewn cymhwysedd datganoledig mewn cysylltiad ag ailddatgan deddfiad o dan baragraff (c) neu (d).
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau –
- (a) darparu i ddarpariaeth mewn is-ddeddfwriaeth a wneir o dan neu yn rhinwedd darpariaeth a ddiddymir neu a ddirymir drwy reoliadau o dan is-adran (2)(a) barhau mewn effaith fel pe bai wedi ei gwneud o dan neu yn rhinwedd darpariaeth mewn rheoliadau o dan is-adran (2)(c) (gan gynnwys darpariaeth mewn is-ddeddfwriaeth a wneir o dan neu yn rhinwedd swyddogaethau nad ydynt wedi eu hailddatgan yn y rheoliadau o dan is-adran (2)(c));
 - (b) darparu i ddarpariaeth mewn is-ddeddfwriaeth a wneir o dan neu yn rhinwedd darpariaeth i'r graddau y mae wedi ei datgymhwyso drwy reoliadau o dan is-adran (2)(b) barhau mewn effaith fel pe bai wedi ei gwneud o dan neu yn rhinwedd darpariaeth mewn rheoliadau o dan is-adran (2)(d) (gan gynnwys darpariaeth mewn is-ddeddfwriaeth a wneir o dan neu yn rhinwedd swyddogaethau nad ydynt wedi eu hailddatgan yn y rheoliadau o dan is-adran (2)(d));

- (c) create a relevant criminal offence;
 - (d) confer or impose a function on a Minister of the Crown;
 - (e) remove or modify a pre-commencement function of a Minister of the Crown unless doing so is incidental to, or consequential on, another provision contained in the regulations.
- (6) Regulations under this section –
- (a) must be made before exit day, and
 - (b) must not come into force before exit day.

4 Restatement and continuation of EU derived enactments

- (1) The power in subsection (2) applies to an enactment if –
- (a) it was passed or made, or operates, entirely or to some extent for a purpose mentioned in section 2(2)(a) or (b) of the European Communities Act 1972 (whether or not made under section 2(2) of, or paragraph 1A of Schedule 2 to, that Act), or
 - (b) it relates otherwise to the EU or the EEA for all or some purposes.
- (2) The Welsh Ministers may by regulations –
- (a) repeal or revoke an enactment that is wholly within devolved competence;
 - (b) disapply an enactment that is wholly or partly within devolved competence, so far as it is within devolved competence;
 - (c) restate an enactment repealed or revoked under paragraph (a) with or without modifications within devolved competence;
 - (d) restate an enactment disapplied under paragraph (b), so far as it is disapplied, with or without modifications within devolved competence;
 - (e) make further provision within devolved competence in connection with restatement of an enactment under paragraph (c) or (d).
- (3) The Welsh Ministers may by regulations –
- (a) provide for provision in subordinate legislation made under, or by virtue of, a provision repealed or revoked by regulations under subsection (2)(a) to continue in effect as if made under or by virtue of provision in regulations under subsection (2)(c) (including provision in subordinate legislation made under, or by virtue of, functions that are not restated in the regulations under subsection (2)(c));
 - (b) provide for provision in subordinate legislation made under, or by virtue of, a provision so far as it is disapplied by regulations under subsection (2)(b) to continue in effect as if made under or by virtue of provision in regulations under subsection (2)(d) (including provision in subordinate legislation made under, or by virtue of, functions that are not restated in the regulations under subsection (2)(d));

- (c) addasu darpariaeth mewn is-ddeddfwriaeth sy'n parhau mewn effaith o dan yr is-adran hon a gwneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â'i heffaith barhaus, os yw'r addasiad neu'r ddarpariaeth bellach o fewn cymhwysedd datganoledig.
- (4) Ni chaiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud addasiadau i ddeddfiad neu ddarpariaeth bellach mewn cysylltiad â'i ailddatgan neu ei barhad mewn effaith oni bai bod Gweinidogion Cymru yn ystyried bod yr addasu neu'r ddarpariaeth bellach yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol y deddfiad ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.
- (5) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon gynnwys darpariaeth (ond nid ydynt yn gyfyngedig i ddarpariaeth) –
- (a) sy'n dileu unrhyw beth nad oes ganddo unrhyw gymhwysiad ymarferol o ran Cymru neu unrhyw ran ohoni neu sydd fel arall yn ddiangen neu'n sylweddol ddiangen;
- (b) sy'n dileu swyddogaethau endidau o'r UE, neu swyddogaethau mewn perthynas ag endidau o'r UE, nad oes ganddynt swyddogaethau yn y cyswllt hwnnw mwyach o dan gyfraith yr UE mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig neu unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig;
- (c) sy'n dileu darpariaeth ar gyfer trefniadau cilyddol, neu mewn cysylltiad â threfniadau cilyddol, rhwng –
- (i) y Deyrnas Unedig neu unrhyw ran ohoni neu awdurdod cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau o ran Cymru, a
- (ii) yr UE, endid o'r UE, Aelod-wladwriaeth neu awdurdod cyhoeddus mewn Aelod-wladwriaeth,
- nad ydynt yn bodoli mwyach neu nad ydynt yn briodol mwyach;
- (d) sy'n dileu darpariaeth ar gyfer trefniadau eraill neu mewn cysylltiad â threfniadau eraill –
- (i) sy'n ymwneud â'r UE, endid o'r UE, Aelod-wladwriaeth neu awdurdod cyhoeddus mewn Aelod-wladwriaeth, neu
- (ii) sydd fel arall yn ddibynnol ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r UE,
- ac nad ydynt yn bodoli mwyach neu nad ydynt yn briodol mwyach;
- (e) sy'n dileu darpariaeth ar gyfer unrhyw drefniadau cilyddol neu unrhyw drefniadau eraill, neu mewn cysylltiad ag unrhyw drefniadau cilyddol neu unrhyw drefniadau eraill, nad ydynt yn dod o fewn paragraff (c) neu (d) ac nad ydynt yn bodoli mwyach, neu nad ydynt yn briodol mwyach, oherwydd i'r Deyrnas Unedig beidio â bod yn barti i unrhyw un neu ragor o Gytuniadau'r UE;
- (f) sy'n rhoi swyddogaethau neu'n gosod cyfyngiadau –
- (i) a oedd mewn cyfarwyddeb gan yr UE ac a oedd mewn grym yn union cyn y diwrnod ymadael (gan gynnwys unrhyw bŵer i wneud deddfwriaeth drydyddol yr UE), a
- (ii) y mae'n briodol eu dargadw;
- (g) sy'n dileu cyfeiriadau at yr UE nad ydynt yn briodol mwyach.

- (c) modify provision in subordinate legislation that continues in effect under this subsection and make further provision in connection with its continued effect, if the modification or further provision is within devolved competence.
- (4) Regulations under this section may not make modifications of an enactment or further provision in connection with its restatement or continued effect unless the Welsh Ministers consider the modification or further provision necessary to ensure the effective operation of the enactment after the withdrawal of the United Kingdom from the European Union.
- (5) Regulations under this section may include (but are not limited to) provision—
 - (a) removing anything that has no practical application in relation to Wales or any part of it or is otherwise redundant or substantially redundant;
 - (b) removing functions of, or in relation to, EU entities that no longer have functions in that respect under EU law in relation to the United Kingdom or any part of the United Kingdom;
 - (c) removing provision for, or in connection with, reciprocal arrangements between—
 - (i) the United Kingdom or any part of it or a public authority exercising functions in relation to Wales, and
 - (ii) the EU, an EU entity, a member State or a public authority in a member State,that no longer exist or are no longer appropriate;
 - (d) removing provision for, or in connection with, other arrangements that—
 - (i) involve the EU, an EU entity, a member State or a public authority in a member State, or
 - (ii) are otherwise dependent upon the United Kingdom’s membership of the EU,and that no longer exist or are no longer appropriate;
 - (e) removing provision for, or in connection with, any reciprocal or other arrangements not falling within paragraph (c) or (d) that no longer exist, or are no longer appropriate, as a result of the United Kingdom ceasing to be a party to any of the EU Treaties;
 - (f) conferring functions or imposing restrictions that—
 - (i) were in an EU directive and in force immediately before exit day (including any power to make EU tertiary legislation), and
 - (ii) it is appropriate to retain;
 - (g) removing EU references that are no longer appropriate.

- (6) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon (ymhlith pethau eraill) –
- (a) darparu i swyddogaethau endidau o'r UE neu awdurdodau cyhoeddus mewn Aelod-wladwriaethau (gan gynnwys gwneud offeryn o natur ddeddfwriaethol neu ddarparu cyllid) –
 - (i) fod yn arferadwy yn lle hynny gan awdurdod cyhoeddus (pa un a yw newydd ei sefydlu neu a yw wedi ei sefydlu at y diben ai peidio), neu
 - (ii) cael eu disodli, eu diddymu neu eu haddasu fel arall;
 - (b) darparu ar gyfer sefydlu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni'r swyddogaethau y darperir ar eu cyfer gan reoliadau o dan yr adran hon.
- (7) Ond ni chaiff rheoliadau o dan yr adran hon –
- (a) gosod na chynyddu trethiant;
 - (b) gwneud darpariaeth ôl-weithredol;
 - (c) creu trosedd berthnasol;
 - (d) rhoi swyddogaeth i un o Weinidogion y Goron na gosod swyddogaeth arno, oni bai bod y rheoliadau yn ailddatgan y gyfraith;
 - (e) dileu nac addasu swyddogaeth cyn cychwyn un o Weinidogion y Goron oni bai bod gwneud hynny yn gysylltiedig â darpariaeth arall sydd wedi ei chynnwys yn y rheoliadau neu'n ganlyniadol iddi.
- (8) Rhaid i reoliadau o dan yr adran hon –
- (a) cael eu gwneud cyn y diwrnod ymadael, a
 - (b) peidio â dod i rym cyn y diwrnod ymadael.

5 Darpariaeth a wneir o dan bwerau sy'n ymwneud â'r UE i barhau i gael effaith

- (1) Mae darpariaeth a wneir mewn offeryn statudol a wneir o dan un neu ragor o'r pwerau sy'n ymwneud â'r UE a nodir yn is-adran (2) ac a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau yn cael effaith o dan yr adran hon yn hytrach nag o dan y pwerau hynny ac mae i'w thrin fel pe bai wedi ei gwneud o dan yr adran hon.
- (2) Y pwerau sy'n ymwneud â'r UE yw –
- (a) adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972;
 - (b) paragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972;
 - (c) adran 56 o Ddeddf Cyllid 1973 i'r graddau y gwnaed y ddarpariaeth mewn cysylltiad ag unrhyw rwymedigaeth gan yr UE.
- (3) Caniateir i ddarpariaeth a wneir mewn offeryn statudol a wneir o dan ddeddfiad ac eithrio'r pwerau sy'n ymwneud â'r UE a nodir yn is-adran (2) gael eu pennu hefyd o dan is-adran (1) –
- (a) os gwneir yr offeryn statudol o dan un neu ragor o'r pwerau sy'n ymwneud â'r UE hefyd, a
 - (b) os gwneir y ddarpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2)(a) neu (b) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 neu os yw'n ymwneud fel arall â'r UE neu'r AEE.

- (6) Regulations under this section may (among other things) –
 - (a) provide for functions of EU entities or public authorities in member States (including making an instrument of a legislative character or providing funding) to be –
 - (i) exercisable instead by a public authority (whether or not newly established or established for the purpose), or
 - (ii) replaced, abolished or otherwise modified;
 - (b) provide for the establishment of public authorities to carry out functions provided for by regulations under this section.
- (7) But regulations under this section may not –
 - (a) impose or increase taxation;
 - (b) make retrospective provision;
 - (c) create a relevant criminal offence;
 - (d) confer or impose a function on a Minister of the Crown, unless the regulations restate the law;
 - (e) remove or modify a pre-commencement function of a Minister of the Crown unless doing so is incidental to, or consequential on, another provision contained in the regulations.
- (8) Regulations under this section –
 - (a) must be made before exit day, and
 - (b) must not come into force before exit day.

5 Provision made under EU related powers to continue to have effect

- (1) Provision made in a statutory instrument made under one or more of the EU related powers set out in subsection (2) that is specified by the Welsh Ministers in regulations has effect under this section instead of under those powers and is to be treated as having been made under this section.
- (2) The EU related powers are –
 - (a) section 2(2) of the European Communities Act 1972;
 - (b) paragraph 1A of Schedule 2 to the European Communities Act 1972;
 - (c) section 56 of the Finance Act 1973 in so far as the provision was made in connection with any EU obligation.
- (3) Provision made in a statutory instrument made under an enactment other than the EU related powers set out in subsection (2) may also be specified under subsection (1) if –
 - (a) the statutory instrument is also made under one or more of the EU related powers, and
 - (b) the provision is made for a purpose mentioned in section 2(2)(a) or (b) of the European Communities Act 1972 or relates otherwise to the EU or the EEA.

- (4) Dim ond i'r graddau y byddai darpariaeth a bennir o dan is-adran (1) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru pe bai wedi ei chynnwys mewn Deddf gan y Cynulliad (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth na ellid ond ei gwneud gyda chydysniad un o Weinidogion y Goron) y mae'r ddarpariaeth yn cael effaith o dan yr adran hon ac i'w thrin fel pe bai wedi ei gwneud o dan yr adran hon.
- (5) Caiff rheoliadau addasu'r darpariaethau a bennir o dan is-adran (1) neu wneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â hwy –
 - (a) os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod yr addasu neu'r ddarpariaeth bellach yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol darpariaethau a bennir o dan is-adran (1) ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, a
 - (b) os yw'r addasu neu'r ddarpariaeth bellach o fewn cymhwysedd datganoledig.
- (6) Caiff rheoliadau o dan is-adran (5) –
 - (a) cynnwys (ymhlith pethau eraill) y mathau o ddarpariaeth a grybwyllir yn is-adrannau (5) a (6) o adran 4;
 - (b) addasu deddfiad.
- (7) Ond ni chaiff rheoliadau o dan yr adran hon –
 - (a) gosod na chynyddu trethiant;
 - (b) gwneud darpariaeth ôl-weithredol;
 - (c) creu trosedd berthnasol;
 - (d) rhoi swyddogaeth i un o Weinidogion y Goron na gosod swyddogaeth arno;
 - (e) dileu nac addasu swyddogaeth cyn cychwyn un o Weinidogion y Goron oni bai bod gwneud hynny yn gysylltiedig â darpariaeth arall sydd wedi ei chynnwys yn y rheoliadau neu'n ganlyniadol iddi.
- (8) Rhaid i reoliadau o dan yr adran hon –
 - (a) cael eu gwneud cyn y diwrnod ymadael, a
 - (b) peidio â dod i rym cyn y diwrnod ymadael.

6 Heriau i gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sy'n codi o annilysrwydd offerynnau gan yr UE

- (1) Nid oes unrhyw hawl yng nghyfraith Cymru a Lloegr ar neu ar ôl y diwrnod ymadael i herio unrhyw ddarn o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE ar y sail bod offeryn gan yr UE yn annilys yn union cyn y diwrnod ymadael.
- (2) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i'r graddau –
 - (a) y mae Llys Ewrop wedi penderfynu cyn y diwrnod ymadael fod yr offeryn yn annilys,
 - (b) y mae'n ymwneud ag unrhyw ymddygiad a ddigwyddodd cyn y diwrnod ymadael sy'n arwain at unrhyw atebolrwydd troseddol, neu
 - (c) y mae'r her o fath a ddisgrifir, neu y darperir ar ei gyfer, mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

- (4) A provision specified under subsection (1) has effect under this section, and is to be treated as having been made under this section, only so far as the provision would be within the legislative competence of the National Assembly for Wales if it were contained in an Act of the Assembly (including any provision that could only be made with the consent of a Minister of the Crown).
- (5) Regulations may modify the provisions specified under subsection (1) or make further provision in connection with them if—
 - (a) the Welsh Ministers consider the modification or further provision necessary to ensure the effective operation of provisions specified under subsection (1) after the withdrawal of the United Kingdom from the European Union, and
 - (b) the modification or further provision is within devolved competence.
- (6) Regulations under subsection (5) may—
 - (a) include (among other things) the kinds of provision mentioned in subsections (5) and (6) of section 4;
 - (b) modify an enactment.
- (7) But regulations under this section may not—
 - (a) impose or increase taxation;
 - (b) make retrospective provision;
 - (c) create a relevant criminal offence;
 - (d) confer or impose a function on a Minister of the Crown;
 - (e) remove or modify a pre-commencement function of a Minister of the Crown unless doing so is incidental to, or consequential on, another provision contained in the regulations.
- (8) Regulations under this section—
 - (a) must be made before exit day, and
 - (b) must not come into force before exit day.

6 Challenges to EU derived Welsh law arising from invalidity of EU instruments

- (1) There is no right in the law of England and Wales on or after exit day to challenge any EU derived Welsh law on the basis that, immediately before exit day, an EU instrument was invalid.
- (2) Subsection (1) does not apply so far as—
 - (a) the European Court has decided before exit day that the instrument is invalid,
 - (b) it relates to any conduct that occurred before exit day that gives rise to any criminal liability, or
 - (c) the challenge is of a kind described, or provided for, in regulations made by the Welsh Ministers.

- (3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2)(c) (ymhlith pethau eraill) ddarparu i her a fyddai wedi bod yn erbyn un o sefydliadau'r UE fel arall fod yn erbyn awdurdod cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau o fewn cymhwysedd datganoledig (ac eithrio un o Weinidogion y Goron).

7 Dehongli cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys i ddehongli cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE.
- (2) Mae unrhyw gwestiwn o ran dilysrwydd, ystyr neu effaith unrhyw ddarn o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE i'w benderfynu, i'r graddau nad yw'r gyfraith honno wedi ei haddasu ar neu ar ôl y diwrnod ymadael ac i'r graddau y maent yn berthnasol iddi—
- (a) yn unol ag unrhyw gyfraith achosion a ddargedwir, unrhyw egwyddorion cyffredinol yr UE a ddargedwir a'r Siarter Hawliau Sylfaenol, a
 - (b) gan roi sylw (ymhlith pethau eraill) i derfynau cymhwyseddau'r UE yn union cyn y diwrnod ymadael.
- (3) Ond—
- (a) nid yw Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig yn rhwym wrth unrhyw ddarn o gyfraith achosion yr UE a ddargedwir,
 - (b) nid yw unrhyw lys neu driwlynlys yn rhwym wrth unrhyw gyfraith achosion ddomestig a ddargedwir na fyddai fel arall yn rhwym wrthi, ac
 - (c) nid yw unrhyw un o egwyddorion cyffredinol yr UE i'w hystyried oni bai i Lys Ewrop ei chydnabod yn un o egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE mewn achos y penderfynwyd arno cyn y diwrnod ymadael (pa un ai fel rhan hanfodol o'r penderfyniad yn yr achos ai peidio).
- (4) Wrth benderfynu pa un ai i wyro oddi wrth unrhyw ddarn o gyfraith achosion yr UE a ddargedwir, rhaid i'r Goruchaf Lys gymhwyso'r un prawf ag y byddai'n ei gymhwyso wrth benderfynu pa un ai i wyro oddi wrth ei gyfraith achosion ei hun.
- (5) Nid yw is-adran (2) yn atal dilysrwydd, ystyr neu effaith unrhyw ddarn o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sydd wedi ei addasu ar neu ar ôl y diwrnod ymadael rhag cael ei benderfynu fel y darperir ar ei gyfer yn yr is-adran honno os yw gwneud hynny yn gyson â bwriad yr addasiadau.
- (6) Yn yr adran hon—
- ystyr "cyfraith achosion a ddargedwir" ("*retained case law*") yw—
- (a) cyfraith achosion ddomestig a ddargedwir, a
 - (b) cyfraith achosion yr UE a ddargedwir;

- (3) Regulations under subsection (2)(c) may (among other things) provide for a challenge that would otherwise have been against an EU institution to be against a public authority exercising functions within devolved competence (other than a Minister of the Crown).

7 Interpretation of EU derived Welsh law

- (1) This section applies to the interpretation of EU derived Welsh law.
- (2) Any question as to the validity, meaning or effect of any EU derived Welsh law is to be decided, so far as that law is unmodified on or after exit day and so far as they are relevant to it—
 - (a) in accordance with any retained case law, any retained general principles of EU law and the Charter of Fundamental Rights, and
 - (b) having regard (among other things) to the limits, immediately before exit day, of EU competences.
- (3) But—
 - (a) the Supreme Court of the United Kingdom is not bound by any retained EU case law,
 - (b) no court or tribunal is bound by any retained domestic case law that it would not otherwise be bound by, and
 - (c) no general principle of EU law is to be taken into account unless it was recognised as a general principle of EU law by the European Court in a case decided before exit day (whether or not as an essential part of the decision in the case).
- (4) In deciding whether to depart from any retained EU case law, the Supreme Court must apply the same test as it would apply in deciding whether to depart from its own case law.
- (5) Subsection (2) does not prevent the validity, meaning or effect of any EU derived Welsh law that has been modified on or after exit day from being decided as provided for in that subsection if doing so is consistent with the intention of the modifications.
- (6) In this section—

“retained case law” (“*cyfraith achosion a ddargedwir*”) means—

 - (a) retained domestic case law, and
 - (b) retained EU case law;

ystyr "cyfraith achosion ddomestig a ddargedwir" ("*retained domestic case law*") yw unrhyw egwyddorion a osodir gan lys neu dribiwnlys yng Nghymru a Lloegr neu Oruchaf Lys y Deyrnas Unedig, ac unrhyw benderfyniadau ganddo, fel y maent yn cael effaith yn union cyn y diwrnod ymadael ac i'r graddau –

- (a) y maent yn ymwneud ag unrhyw beth y caniateir i reoliadau gael eu gwneud mewn cysylltiad ag ef o dan adran 3, 4 neu 5, a
- (b) nad ydynt wedi eu heithrio gan adran 6 neu unrhyw ddeddfiad arall mewn deddfwriaeth sylfaenol (ac eithrio deddfiad y mae is-adran (7) yn gymwys iddo),

(fel y mae'r egwyddorion a'r penderfyniadau hynny yn cael eu haddasu gan neu o dan y Ddeddf hon neu gan ddarn arall o gyfraith Cymru a Lloegr o bryd i'w gilydd);

ystyr "cyfraith achosion yr UE a ddargedwir" ("*retained EU case law*") yw unrhyw egwyddorion a osodir gan Lys Ewrop, ac unrhyw benderfyniadau ganddo, fel y maent yn cael effaith yng nghyfraith yr UE yn union cyn y diwrnod ymadael ac i'r graddau –

- (a) y maent yn ymwneud ag unrhyw beth y caniateir i reoliadau gael eu gwneud mewn cysylltiad ag ef o dan adran 3, 4 neu 5, a
- (b) nad ydynt wedi eu heithrio gan adran 6 neu unrhyw ddeddfiad arall mewn deddfwriaeth sylfaenol (ac eithrio deddfiad y mae is-adran (7) yn gymwys iddo),

(fel y mae'r egwyddorion a'r penderfyniadau hynny yn cael eu haddasu gan neu o dan y Ddeddf hon neu gan ddarn arall o gyfraith Cymru a Lloegr o bryd i'w gilydd);

ystyr "egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE a ddargedwir" ("*retained general principles of EU law*") yw egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE, fel y maent yn cael effaith yng nghyfraith yr UE yn union cyn y diwrnod ymadael ac i'r graddau –

- (a) y maent yn ymwneud ag unrhyw beth y caniateir i reoliadau gael eu gwneud mewn cysylltiad ag ef o dan adran 3, 4 neu 5, a
- (b) nad ydynt wedi eu heithrio gan adran 6 neu unrhyw ddeddfiad arall mewn deddfwriaeth sylfaenol (ac eithrio deddfiad y mae is-adran (7) yn gymwys iddo),

(fel y mae'r egwyddorion hynny yn cael eu haddasu gan neu o dan y Ddeddf hon neu gan ddarn arall o gyfraith Cymru a Lloegr o bryd i'w gilydd).

- (7) Mae'r is-adran hon yn gymwys i ddeddfiad (ac eithrio deddfiad a gynhwysir mewn Deddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru) a fyddai'n eithrio'r Siarter Hawliau Sylfaenol o'r gyfraith sy'n gymwys o ran Cymru (pa un a yw'r eithriad yn rhychwantu tiriogaethau eraill neu'n gymwys iddynt ai peidio) pe na bai am yr adran hon.
- (8) Nid yw deddfiad y mae is-adran (7) yn gymwys iddo yn cael unrhyw effaith at ddibenion yr adran hon.

“retained domestic case law” (“*cyfraith achosion ddomestig a ddargedwir*”) means any principles laid down by, and any decisions of, a court or tribunal in England and Wales or the Supreme Court of the United Kingdom, as they have effect immediately before exit day and so far as they –

- (a) relate to anything in respect of which regulations may be made under section 3, 4 or 5, and
- (b) are not excluded by section 6 or any other enactment in primary legislation (except an enactment to which subsection (7) applies),

(as those principles and decisions are modified by or under this Act or by other law of England and Wales from time to time);

“retained EU case law” (“*cyfraith achosion yr UE a ddargedwir*”) means any principles laid down by, and any decisions of, the European Court, as they have effect in EU law immediately before exit day and so far as they –

- (a) relate to anything in respect of which regulations may be made under section 3, 4 or 5, and
- (b) are not excluded by section 6 or any other enactment in primary legislation (except an enactment to which subsection (7) applies),

(as those principles and decisions are modified by or under this Act or by other law of England and Wales from time to time);

“retained general principles of EU law” (“*egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE a ddargedwir*”) means the general principles of EU law, as they have effect in EU law immediately before exit day and so far as they –

- (a) relate to anything in respect of which regulations may be made under which section 3, 4 or 5, and
- (b) are not excluded by section 6 or any other enactment in primary legislation (except an enactment to which subsection (7) applies),

(as those principles are modified by or under this Act or by other law of England and Wales from time to time).

- (7) This subsection applies to an enactment (other than an enactment contained in an Act of the National Assembly for Wales) that would exclude the Charter of Fundamental Rights from law that applies in relation to Wales (whether or not the exclusion extends or applies to other territories) were it not for this section.
- (8) An enactment to which subsection (7) applies has no effect for the purposes of this section.

8 Rheolau tystiolaeth etc.

- (1) Pan fo'n angenrheidiol, at ddiben dehongli cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE mewn achosion cyfreithiol, i benderfynu ar gwestiwn o ran –
- (a) ystyr neu effaith unrhyw un o Gytuniadau'r UE neu unrhyw gytuniad arall sy'n ymwneud â'r UE yng nghyfraith yr UE, neu
 - (b) dilysrwydd, ystyr neu effaith unrhyw offeryn gan yr UE yng nghyfraith yr UE, mae'r cwestiwn i'w drin at y diben hwnnw fel cwestiwn cyfreithiol.
- (2) Yn yr adran hon –
- mae "cytuniad" ("*treaty*") yn cynnwys –
- (a) unrhyw gytundeb rhyngwladol, a
 - (b) unrhyw brotocol neu atodiad i gytuniad neu gytundeb rhyngwladol;
- ystyr "dehongli cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE" ("*interpreting EU derived Welsh law*") yw penderfynu ar unrhyw gwestiwn o ran dilysrwydd, ystyr neu effaith unrhyw ddarn o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau –
- (a) gwneud darpariaeth sy'n galluogi i sylw barnwrol gael ei gymryd o fater perthnasol neu sy'n gwneud hynny'n ofynnol, neu
 - (b) darparu ar gyfer derbynoldeb tystiolaeth benodedig o'r canlynol mewn unrhyw achosion cyfreithiol –
 - (i) mater perthnasol, neu
 - (ii) offerynnau neu ddogfennau a ddyroddir gan endid o'r UE neu sydd o dan gadwraeth endid o'r UE,
 at ddiben dehongli cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE.
- (4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (3)(b) ddarparu mai dim ond pan fo amodau penodedig wedi eu bodloni (er enghraifft, amodau o ran ardystio dogfennau) y mae tystiolaeth yn dderbyniol.
- (5) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon addasu unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan ddeddfiad.
- (6) At ddibenion yr adran hon, mae pob un o'r canlynol yn "mater perthnasol" –
- (a) cyfraith yr UE,
 - (b) cytundeb yr AEE, ac
 - (c) unrhyw beth a bennir yn y rheoliadau ac sy'n ymwneud â mater a grybwyllir ym mharagraff (a) neu (b).

8 Rules of evidence etc.

- (1) Where it is necessary, for the purpose of interpreting EU derived Welsh law in legal proceedings, to decide a question as to –
 - (a) the meaning or effect in EU law of any of the EU Treaties or any other treaty relating to the EU, or
 - (b) the validity, meaning or effect in EU law of any EU instrument,the question is to be treated for that purpose as a question of law.
- (2) In this section –

“interpreting EU derived Welsh law” (*“dehongli cyfraith Cymru sy’n deillio o’r UE”*) means deciding any question as to the validity, meaning or effect of any EU derived Welsh law;

“treaty” (*“cytuniad”*) includes –

 - (a) any international agreement, and
 - (b) any protocol or annex to a treaty or international agreement.
- (3) The Welsh Ministers may by regulations –
 - (a) make provision enabling or requiring judicial notice to be taken of a relevant matter, or
 - (b) provide for the admissibility in any legal proceedings of specified evidence of –
 - (i) a relevant matter, or
 - (ii) instruments or documents issued by or in the custody of an EU entity,for the purpose of interpreting EU derived Welsh law.
- (4) Regulations under subsection (3)(b) may provide that evidence is admissible only where specified conditions are met (for example, conditions as to certification of documents).
- (5) Regulations under this section may modify any provision made by or under an enactment.
- (6) For the purposes of this section, each of the following is a “relevant matter” –
 - (a) EU law,
 - (b) the EEA agreement, and
 - (c) anything that is specified in the regulations and that relates to a matter mentioned in paragraph (a) or (b).

*Pwerau pellach Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad ag ymadael â'r UE***9 Cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol**

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig y maent yn ystyried ei bod yn briodol er mwyn atal neu unioni unrhyw achos, sy'n codi o ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r UE, o dorri rhwymedigaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig.
- (2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon addasu deddfiad.
- (3) Ond ni chaiff rheoliadau o dan yr adran hon –
 - (a) gwneud darpariaeth ôl-weithredol;
 - (b) creu trosedd berthnasol;
 - (c) rhoi swyddogaeth i un o Weinidogion y Goron na gosod swyddogaeth arno;
 - (d) dileu nac addasu swyddogaeth cyn cychwyn un o Weinidogion y Goron oni bai bod gwneud hynny yn gysylltiedig â darpariaeth arall sydd wedi ei chynnwys yn y rheoliadau neu'n ganlyniadol iddi;
 - (e) cael eu gwneud i weithredu'r cytundeb ymadael o ran Cymru.
- (4) Ni chaniateir i reoliadau gael eu gwneud o dan yr adran hon ar ôl diwedd y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau â'r diwrnod ymadael.

10 Gweithredu'r cytundeb ymadael

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig y maent yn ystyried ei bod yn briodol at ddibenion gweithredu'r cytundeb ymadael os ydynt yn ystyried y dylai darpariaeth o'r fath fod mewn grym ar neu cyn y diwrnod ymadael, yn ddarostyngedig i ddeddfu statud yn flaenorol gan Senedd y Deyrnas Unedig sy'n cymeradwyo telerau terfynol ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.
- (2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon addasu deddfiad (gan gynnwys deddfiad sydd wedi ei gynnwys yn y Ddeddf hon).
- (3) Ond ni chaiff rheoliadau o dan yr adran hon –
 - (a) gosod na chynyddu trethiant;
 - (b) gwneud darpariaeth ôl-weithredol;
 - (c) creu trosedd berthnasol;
 - (d) rhoi swyddogaeth i un o Weinidogion y Goron na gosod swyddogaeth arno;
 - (e) dileu nac addasu swyddogaeth cyn cychwyn un o Weinidogion y Goron oni bai bod gwneud hynny yn gysylltiedig â darpariaeth arall sydd wedi ei chynnwys yn y rheoliadau neu'n ganlyniadol iddi.
- (4) Ni chaniateir i reoliadau gael eu gwneud o dan yr adran hon ar ôl y diwrnod ymadael.

Further powers of the Welsh Ministers in connection with withdrawal from the EU

9 Complying with international obligations

- (1) The Welsh Ministers may by regulations make provision within devolved competence they consider appropriate to prevent or remedy any breach, arising from the withdrawal of the United Kingdom from the EU, of the international obligations of the United Kingdom.
- (2) Regulations under this section may modify an enactment.
- (3) But regulations under this section may not—
 - (a) make retrospective provision;
 - (b) create a relevant criminal offence;
 - (c) confer or impose a function on a Minister of the Crown;
 - (d) remove or modify a pre-commencement function of a Minister of the Crown unless doing so is incidental to, or consequential on, another provision contained in the regulations;
 - (e) be made to implement the withdrawal agreement in relation to Wales.
- (4) No regulations may be made under this section after the end of the period of two years beginning with exit day.

10 Implementing the withdrawal agreement

- (1) The Welsh Ministers may by regulations make provision within devolved competence they consider appropriate for the purposes of implementing the withdrawal agreement if they consider that such provision should be in force on or before exit day, subject to the prior enactment of a statute by the Parliament of the United Kingdom approving the final terms of withdrawal of the United Kingdom from the European Union.
- (2) Regulations under this section may modify an enactment (including an enactment contained in this Act).
- (3) But regulations under this section may not—
 - (a) impose or increase taxation;
 - (b) make retrospective provision;
 - (c) create a relevant criminal offence;
 - (d) confer or impose a function on a Minister of the Crown;
 - (e) remove or modify a pre-commencement function of a Minister of the Crown unless doing so is incidental to, or consequential on, another provision contained in the regulations.
- (4) No regulations may be made under this section after exit day.

11 Pŵer i wneud darpariaeth sy'n cyfateb i gyfraith yr UE ar ôl y diwrnod ymadael

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig—
 - (a) sy'n cyfateb i ddarpariaeth mewn rheoliad gan yr UE neu benderfyniad gan yr UE,
 - (b) ar gyfer gorfodi darpariaeth a wneir o dan baragraff (a) neu er mwyn ei gwneud yn effeithiol fel arall, neu
 - (c) er mwyn gweithredu cyfarwyddeb gan yr UE o ran Cymru,
 i'r graddau y mae'r rheoliad gan yr UE, y penderfyniad gan yr UE neu'r gyfarwyddeb gan yr UE yn cael effaith yng nghyfraith yr UE ar ôl y diwrnod ymadael.
- (2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon addasu deddfiad.
- (3) Wrth wneud darpariaeth o dan is-adran (1), mae gan Weinidogion Cymru y pwerau (ymhlith eraill) a grybwyllir yn adran 3(4); ac at y diben hwn, mae'r cyfeiriad at "cyfraith uniongyrchol yr UE" yn adran 3(4) i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys darpariaeth mewn cyfarwyddeb gan yr UE.
- (4) Ond ni chaiff rheoliadau o dan yr adran hon—
 - (a) gosod na chynyddu trethiant;
 - (b) gwneud darpariaeth ôl-weithredol;
 - (c) creu trosedd berthnasol.
- (5) Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.
- (6) At ddiben yr adran hon, ystyr "Cytuniadau'r UE" yn y diffiniad o "cyfraith yr UE" a roddir gan adran 20(1) yw—
 - (a) Cytuniadau'r UE o fewn yr ystyr a roddir i "EU Treaties" gan adran 1(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68) fel yr oedd y Ddeddf honno yn cael effaith yn union cyn ei diddymu gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, fel yr oedd yn union cyn y diwrnod ymadael;
 - (b) unrhyw gytuniad y mae'r Undeb Ewropeaidd yn ymrwymo iddo (ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Polisi Tramor a Diogelwch Cyffredin), gyda neu heb unrhyw un neu ragor o'r Aelod-wladwriaethau, ac a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, ac
 - (c) unrhyw gytuniad y mae Aelod-wladwriaethau yn ymrwymo iddo sy'n ategol i gytuniad a grybwyllir ym mharagraff (a) neu (b) ac a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

12 Adolygu'r pŵer yn adran 11(1) a machlud y pŵer

- (1) Ni chaniateir i reoliadau gael eu gwneud o dan adran 11(1) ar ôl diwedd cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod ymadael.
- (2) Ond caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau estyn y cyfnod a grybwyllir yn is-adran (1).

11 Power to make provision corresponding to EU law after exit day

- (1) The Welsh Ministers may by regulations make provision within devolved competence –
 - (a) corresponding to provision in an EU regulation or EU decision,
 - (b) for the enforcement of provision made under paragraph (a) or to otherwise make it effective, or
 - (c) to implement an EU directive in relation to Wales,so far as the EU regulation, EU decision or EU directive has effect in EU law after exit day.
- (2) Regulations under this section may modify an enactment.
- (3) In making provision under subsection (1), the Welsh Ministers have the powers (among others) mentioned in section 3(4); and for this purpose, the reference to “direct EU law” in section 3(4) is to be read as if it included provision in an EU directive.
- (4) But regulations under this section may not –
 - (a) impose or increase taxation;
 - (b) make retrospective provision;
 - (c) create a relevant criminal offence.
- (5) Before making regulations under this section the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate.
- (6) For the purpose of this section, “EU Treaties” in the definition of “EU law” given by section 20(1) means –
 - (a) the EU Treaties within the meaning given by section 1(2) of the European Communities Act 1972 (c. 68) as that Act had effect immediately before its repeal by section 1 of the European Union (Withdrawal) Act 2018, as at immediately before exit day;
 - (b) any treaty entered into by the European Union (except so far as it relates to the Common Foreign and Security Policy), with or without any of the member States, that is specified in regulations made by the Welsh Ministers, and
 - (c) any treaty entered into by member States that is ancillary to a treaty mentioned in paragraph (a) or (b) and specified in regulations made by the Welsh Ministers.

12 Review and sunset of the power in section 11(1)

- (1) No regulations may be made under section 11(1) after the end of a period of 5 years beginning with exit day.
- (2) But the Welsh Ministers may by regulations extend the period mentioned in subsection (1).

- (3) O ran rheoliadau o dan is-adran (2) –
 - (a) cânt estyn y cyfnod ar fwy nag un achlysur;
 - (b) rhaid iddynt ddod i rym cyn diwedd y cyfnod a grybwyllir yn is-adran (1) neu, os yw'r cyfnod wedi ei estyn drwy reoliadau blaenorol, cyn diwedd y cyfnod estynedig hwnnw;
 - (c) ni chânt estyn y cyfnod ar unrhyw achlysur am fwy na 5 mlynedd.
- (4) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad ar –
 - (a) gweithrediad ac effaith y pŵer yn adran 11(1) a darpariaeth a wneir oddi tani, a
 - (b) yr angen parhaus neu fel arall am y pŵer.
- (5) Wrth lunio adroddiad, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.
- (6) Nid oes angen i adroddiad ymdrin â chyfnod yr ymdriniwyd ag ef mewn adroddiad blaenorol.

13 Ffioedd a thaliadau

Mae Atodlen 1 (sy'n cynnwys pwerau mewn cysylltiad â ffioedd a thaliadau) yn cael effaith.

Cydsyniad Gweinidogion Cymru i is-ddeddfwriaeth sydd o fewn cwrmpas cyfraith yr UE

14 Cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth

- (1) Cyn gwneud is-ddeddfwriaeth sy'n cynnwys darpariaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi, rhaid i un o Weinidogion y Goron, neu unrhyw berson arall (ac eithrio Gweinidogion Cymru) y mae'r swyddogaeth o wneud y ddeddfwriaeth wedi ei rhoi iddo, gael cydsyniad Gweinidogion Cymru.
- (2) Mae'r adran hon yn gymwys i ddarpariaeth os yw –
 - (a) amodau 1, 2 a 3 wedi eu bodloni, a
 - (b) amod 4 neu 5 wedi ei fodloni.
- (3) Amod 1 yw bod y ddarpariaeth yn gymwys o ran Cymru (pa un a yw'r ddarpariaeth yn rhychwantu tiriogaethau eraill neu'n gymwys iddynt ai peidio) ac o fewn cymhwysedd datganoledig.
- (4) Amod 2 yw bod y ddarpariaeth yn dod, neu y byddai wedi dod, o fewn cwrmpas cyfraith yr UE fel y mae'n cael effaith ar y diwrnod y daw'r adran hon i rym.
- (5) Amod 3 yw bod y ddarpariaeth i'w gwneud o dan swyddogaeth a arferir drwy offeryn statudol.
- (6) Amod 4 yw bod y ddarpariaeth i'w gwneud o dan swyddogaeth a roddir gan neu o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig a ddeddfir ar ôl y diwrnod y daw'r adran hon i rym.

- (3) Regulations under subsection (2) –
 - (a) may extend the period on more than one occasion;
 - (b) must come into force before the end of the period mentioned in subsection (1) or, if the period has been extended by previous regulations, the end of that extended period;
 - (c) must not extend the period on any occasion for more than 5 years.
- (4) Before making regulations under subsection (2), the Welsh Ministers must lay before the National Assembly for Wales a report on –
 - (a) the operation and effect of the power in section 11(1) and provision made under it, and
 - (b) the continuing need or otherwise for the power.
- (5) In preparing a report, the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate.
- (6) A report does not need to deal with a period dealt with in a previous report.

13 Fees and charges

Schedule 1 (which contains powers in connection with fees and charges) has effect.

Welsh Ministers' consent to subordinate legislation within the scope of EU law

14 Welsh Ministers' consent to making subordinate legislation

- (1) Before making subordinate legislation containing a provision to which this section applies, a Minister of the Crown, or any other person (other than the Welsh Ministers) upon whom the function of making the legislation has been conferred, must obtain the Welsh Ministers' consent.
- (2) This section applies to a provision if –
 - (a) conditions 1, 2 and 3 are met, and
 - (b) condition 4 or 5 is met.
- (3) Condition 1 is that the provision applies in relation to Wales (whether or not the provision extends or applies to other territories) and is within devolved competence.
- (4) Condition 2 is that the provision falls, or would have fallen, within the scope of EU law as it has effect on the day this section comes into force.
- (5) Condition 3 is that the provision is to be made under a function exercised by statutory instrument.
- (6) Condition 4 is that the provision is to be made under a function conferred by or under an Act of the Parliament of the United Kingdom enacted after the day on which this section comes into force.

(7) Amod 5 yw –

- (a) bod y ddarpariaeth i'w gwneud o dan swyddogaeth a addesir gan neu o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig a ddeddfir ar ôl y diwrnod y daw'r adran hon i rym,
- (b) bod y swyddogaeth a grybwyllir ym mharagraff (a) wedi ei haddasu gan y Ddeddf mewn ffordd sy'n galluogi, neu'n ei gwneud yn ofynnol, i ddarpariaeth gael ei gwneud na ellid ei gwneud yn flaenorol, ac
- (c) na ellid bod wedi gwneud y ddarpariaeth cyn i'r swyddogaeth gael ei haddasu.

15 Cydsyniad Gweinidogion Cymru i gymeradwyo neu gadarnhau is-ddeddfwriaeth

- (1) Cyn cymeradwyo neu gadarnhau is-ddeddfwriaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi, rhaid i un o Weinidogion y Goron, neu unrhyw berson arall (ac eithrio Gweinidogion Cymru) y mae'r swyddogaeth o gymeradwyo neu gadarnhau'r ddeddfwriaeth wedi ei rhoi iddo, gael cydsyniad Gweinidogion Cymru.
- (2) Mae'r adran hon yn gymwys i is-ddeddfwriaeth os yw –
 - (a) amodau 1, 2 a 3 wedi eu bodloni, a
 - (b) amod 4 neu 5 wedi ei fodloni.
- (3) Amod 1 yw bod yr is-ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaeth sy'n gymwys o ran Cymru (pa un a yw'r ddarpariaeth yn rhychwantu tiriogaethau eraill neu'n gymwys iddynt ai peidio) ac sydd o fewn cymhwysedd datganoledig.
- (4) Amod 2 yw bod y ddarpariaeth y cyfeirir ati yn amod 1 yn dod, neu y byddai wedi dod, o fewn cwmpas cyfraith yr UE fel y mae'n cael effaith ar y diwrnod y daw'r adran hon i rym.
- (5) Amod 3 yw bod yr is-ddeddfwriaeth i'w gwneud gan berson ac eithrio Gweinidogion Cymru o dan swyddogaeth a arferir drwy offeryn statudol.
- (6) Amod 4 yw bod yr is-ddeddfwriaeth i'w chymeradwyo neu ei chadarnhau o dan swyddogaeth a roddir gan neu o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig a ddeddfir ar ôl y diwrnod y daw'r adran hon i rym.
- (7) Amod 5 yw –
 - (a) bod yr is-ddeddfwriaeth i'w chymeradwyo neu ei chadarnhau o dan swyddogaeth a addesir gan neu o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig a ddeddfir ar ôl y diwrnod y daw'r adran hon i rym, a
 - (b) bod yr is-ddeddfwriaeth yn cynnwys y math o ddarpariaeth y mae'r addasiad yn ei ganiatáu neu'n ei wneud yn ofynnol neu y mae'r addasiad yn gymwys iddo.
- (8) Addesir swyddogaeth at ddibenion is-adran (7) os, o ganlyniad i addasiad i ddeddfiad –
 - (a) yw'r is-ddeddfwriaeth y mae'r swyddogaeth yn gymwys iddi yn gallu cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig na allai ei chynnwys yn flaenorol, neu
 - (b) yw'r swyddogaeth yn gymwys i is-ddeddfwriaeth sy'n cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig nad oedd yn gymwys iddi yn flaenorol.

- (7) Condition 5 is that –
 - (a) the provision is to be made under a function modified by or under an Act of the Parliament of the United Kingdom enacted after the day on which this section comes into force,
 - (b) the function mentioned in paragraph (a) is modified by the Act in a way that enables or requires provision to be made that could not be made previously, and
 - (c) the provision could not have been made before the function was modified.

15 Welsh Ministers' consent to approval or confirmation of subordinate legislation

- (1) Before approving or confirming subordinate legislation to which this section applies, a Minister of the Crown, or any other person (other than the Welsh Ministers) upon whom the function of approving or confirming the legislation has been conferred, must obtain the Welsh Ministers' consent.
- (2) This section applies to subordinate legislation if –
 - (a) conditions 1, 2 and 3 are met, and
 - (b) condition 4 or 5 is met.
- (3) Condition 1 is that the subordinate legislation contains provision applying in relation to Wales (whether or not the provision extends or applies to other territories) that is within devolved competence.
- (4) Condition 2 is that the provision referred to in condition 1 falls, or would have fallen, within the scope of EU law as it has effect on the day this section comes into force.
- (5) Condition 3 is that the subordinate legislation is to be made by a person other than the Welsh Ministers under a function exercised by statutory instrument.
- (6) Condition 4 is that the subordinate legislation is to be approved or confirmed under a function conferred by or under an Act of the Parliament of the United Kingdom enacted after the day on which this section comes into force.
- (7) Condition 5 is that –
 - (a) the subordinate legislation is to be approved or confirmed under a function modified by or under an Act of the Parliament of the United Kingdom enacted after the day on which this section comes into force, and
 - (b) the subordinate legislation contains the kind of provision that the modification allows or requires or to which the modification applies.
- (8) A function is modified for the purposes of subsection (7) if as a consequence of a modification of an enactment –
 - (a) the subordinate legislation to which the function applies can contain provision within devolved competence that it could not previously contain, or
 - (b) the function applies to subordinate legislation containing provision within devolved competence to which it did not previously apply.

- (9) At ddibenion yr adran hon, mae swyddogaeth o gymeradwyo yn cynnwys swyddogaeth o roi cydsyniad.

16 Dyletswydd i adrodd ar arfer swyddogaethau o dan adrannau 14(1) a 15(1)

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad ar arfer eu swyddogaeth cydsyniad o dan adran 14(1) neu 15(1) cyn diwedd cyfnod o 60 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir cydsyniad.
- (2) Rhaid i adroddiad a lunnir o dan is-adran (1)–
- (a) rhoi esboniad o'r is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud, ei chymeradwyo neu ei chadarnhau;
 - (b) pennu'r person y mae'r swyddogaethau o wneud, cymeradwyo neu gadarnhau'r ddeddfwriaeth wedi eu rhoi iddo;
 - (c) pennu rhesymau Gweinidogion Cymru dros roi'r cydsyniad.
- (3) At ddibenion is-adran (1), nid oes unrhyw ystyriaeth i'w rhoi i unrhyw amser pan yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod.

Cymhwysedd datganoledig

17 Ystyr cymhwysedd datganoledig

- (1) Mae darpariaeth neu swyddogaeth o fewn cymhwysedd datganoledig at ddiben adran 3, 4, 5(5), 6(3), 9 neu 10 os byddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru pe bai wedi ei chynnwys mewn Deddf gan y Cynulliad a ddeddfir ar y diwrnod y daw'r adran hon i rym.
- (2) Mae darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig at ddiben adrannau 11, 14 a 15 os byddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gynnwys y ddarpariaeth yn y canlynol–
- (a) Deddf gan y Cynulliad a ddeddfir heb gydsyniad un o Weinidogion y Goron ar y diwrnod y daw'r adran hon i rym, a
 - (b) os yw adran 3 o Ddeddf Cymru 2017 mewn grym, Deddf gan y Cynulliad a ddeddfir heb gydsyniad un o Weinidogion y Goron o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a amnewidiwyd gan adran 3 o Ddeddf Cymru 2017 fel y'u deddfwyd gan Ddeddf 2017.

Cyffredinol

18 Rheoliadau i barhau i gael effaith

Nid yw'r gwaharddiadau ar wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon ar ôl amser penodol yn effeithio ar barhad mewn grym reoliadau a wneir ar neu cyn yr amser hwnnw (gan gynnwys arfer ar ôl yr amser hwnnw unrhyw bŵer a roddir drwy reoliadau a wneir ar neu cyn yr amser hwnnw).

19 Rheoliadau

- (1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon i'w arfer drwy offeryn statudol.

- (9) For the purposes of this section, a function of approving includes a function of giving consent.

16 Duty to report on exercise of functions under sections 14(1) and 15(1)

- (1) The Welsh Ministers must lay before the National Assembly for Wales a report on the exercise of their consent function under section 14(1) or 15(1) before the end of a period of 60 days beginning with the day on which consent is given.
- (2) A report prepared under subsection (1) must –
- (a) give an explanation of the subordinate legislation being made, approved or confirmed;
 - (b) specify the person upon whom the functions of making, approving or confirming the legislation have been conferred;
 - (c) specify the Welsh Ministers' reasons for giving the consent.
- (3) For the purposes of subsection (1), no account is to be taken of any time during which the National Assembly for Wales is dissolved or in recess for more than four days.

Devolved competence

17 Meaning of devolved competence

- (1) A provision or function is within devolved competence for the purpose of section 3, 4, 5(5), 6(3), 9 or 10 if it would be within the legislative competence of the National Assembly for Wales if it were contained in an Act of the Assembly enacted on the day this section comes into force.
- (2) A provision is within devolved competence for the purpose of sections 11, 14 and 15 if it would be within the legislative competence of the National Assembly for Wales to include the provision in –
- (a) an Act of the Assembly enacted without the consent of a Minister of the Crown on the day this section comes into force, and
 - (b) if section 3 of the Wales Act 2017 is in force, an Act of the Assembly enacted without the consent of a Minister of the Crown under the provisions of the Government of Wales Act 2006 substituted by section 3 of the Wales Act 2017 as they were enacted by the 2017 Act.

General

18 Continuing effect of regulations

The prohibitions on making regulations under this Act after a particular time does not affect the continuation in force of regulations made at or before that time (including the exercise after that time of any power conferred by regulations made at or before that time).

19 Regulations

- (1) A power to make regulations under this Act is to be exercised by statutory instrument.

- (2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer i wneud –
- (a) darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer achosion gwahanol neu ardaloedd gwahanol;
 - (b) darpariaeth gysylltiedig, atodol, ganlyniadol, ddarfodol, drosiannol neu arbed.
- (3) Mae Atodlen 2 yn darparu ar gyfer y gweithdrefnau sy'n gymwys i wneud rheoliadau.

20 Dehongli cyffredinol

- (1) Yn y Ddeddf hon –

mae “addasu” (“*modify*”) yn cynnwys diwygio, diddymu neu ddirymu (ac mae ymadroddion cysylltiedig i'w darllen yn unol â hynny);

ystyr “yr AEE” (“*the EEA*”) yw'r Ardal Economaidd Ewropeaidd;

nid yw “Aelod-wladwriaeth” (“*member State*”) (ac eithrio yn y diffiniad o “cyfeiriad at yr UE”) yn cynnwys y Deyrnas Unedig;

ystyr “awdurdod cyhoeddus” (“*public authority*”) yw awdurdod cyhoeddus o fewn ystyr adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998;

ystyr “cyfarwyddeb gan yr UE” (“*EU directive*”) yw cyfarwyddeb o fewn ystyr Erthygl 288 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd;

ystyr “cyfeiriad at yr UE” (“*EU reference*”) yw –

- (a) unrhyw gyfeiriad at yr UE, endid o'r UE neu Aelod-wladwriaeth,
- (b) unrhyw gyfeiriad at gyfarwyddeb gan yr UE neu unrhyw ddarn arall o gyfraith yr UE, neu
- (c) unrhyw gyfeiriad arall sy'n ymwneud â'r UE;

ystyr “cyfraith yr UE” (“*EU law*”) yw –

- (a) yr holl hawliau, pwerau, atebolrwyddau, rhwymedigaethau a chyfyngiadau a grëir neu sy'n codi o bryd i'w gilydd gan neu o dan Gytuniadau'r UE, a
- (b) yr holl rwymedïau a gweithdrefnau y darperir ar eu cyfer o bryd i'w gilydd gan neu o dan Gytuniadau'r EU;

mae i “cymhwysedd datganoledig” (“*devolved competence*”) yr ystyr a roddir gan adran 17;

mae i “Cymru” yr ystyr a roddir i “Wales” gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (gweler adran 158 o'r Ddeddf honno);

ystyr “cytundeb ymadael” (“*withdrawal agreement*”) yw cytundeb (pa un a yw wedi ei gadarnhau ai peidio) rhwng y Deyrnas Unedig a'r UE o dan Erthygl 50(2) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd sy'n nodi'r trefniadau i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r UE;

- (2) A power to make regulations under this Act includes power to make—
- (a) different provision for different purposes, different cases or different areas;
 - (b) incidental, supplementary, consequential, transitory, transitional or saving provision.
- (3) Schedule 2 provides for the procedures that apply to the making of regulations.

20 General interpretation

- (1) In this Act—

“Charter of Fundamental Rights” (*“Siarter Hawliau Sylfaenol”*) means the Charter of Fundamental Rights of the European Union of 7 December 2000, as adapted at Strasbourg on 12 December 2007;

“the EEA” (*“yr AEE”*) means the European Economic Area;

“devolved competence” (*“cymhwysedd datganoledig”*) has the meaning given by section 17;

“enactment” (*“deddfiad”*) means a provision contained in any of the following (whenever enacted or made)—

- (a) an Act of the Parliament of the United Kingdom;
- (b) a Measure or an Act of the National Assembly for Wales;
- (c) subordinate legislation made under an Act of the Parliament of the United Kingdom or a Measure or an Act of the National Assembly for Wales;

“EU decision” (*“penderfyniad gan yr UE”*) means—

- (a) a decision within the meaning of Article 288 of the Treaty on the Functioning of the European Union, or
- (b) a decision under former Article 34(2)(c) of the Treaty on European Union;

“EU directive” (*“cyfarwyddeb gan yr UE”*) means a directive within the meaning of Article 288 of the Treaty on the Functioning of the European Union;

“EU entity” (*“endid o’r UE”*) means an EU institution or any office, body or agency of the EU;

“EU law” (*“cyfraith yr UE”*) means—

- (a) all the rights, powers, liabilities, obligations and restrictions from time to time created or arising by or under the EU Treaties, and
- (b) all the remedies and procedures from time to time provided for by or under the EU Treaties;

“EU reference” (*“cyfeiriad at yr UE”*) means—

- (a) any reference to the EU, an EU entity or a member State,
- (b) any reference to an EU directive or any other EU law, or
- (c) any other reference that relates to the EU;

“EU regulation” (*“rheoliad gan yr UE”*) means a regulation within the meaning of Article 288 of the Treaty on the Functioning of the European Union;

ystyr "darpariaeth ôl-weithredol" (*"retrospective provision"*), mewn perthynas â darpariaeth a wneir drwy reoliadau, yw darpariaeth sy'n cymryd effaith o ddyddiad sy'n gynharach na'r dyddiad y gwneir y rheoliadau;

ystyr "deddfiad" (*"enactment"*) yw darpariaeth sydd wedi ei chynnwys yn unrhyw un o'r canlynol (pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir) –

- (a) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig;
- (b) Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- (c) is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig neu Fesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "deddfwriaeth drydyddol yr UE" (*"EU tertiary legislation"*) yw –

- (a) unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan –
 - (i) rheoliad gan yr UE,
 - (ii) penderfyniad o fewn ystyr Erthygl 288 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, neu
 - (iii) cyfarwyddeb gan yr UE,

yn rhinwedd Erthygl 290 neu 291(2) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd neu Erthygl 202 flaenorol o'r Cytuniad sy'n sefydlu'r Gymuned Ewropeaidd, neu

- (b) unrhyw fesur a fabwysiedir yn unol â Erthygl 34(2)(c) flaenorol o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd i weithredu penderfyniadau o dan Erthygl 34(2)(c) flaenorol, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ddarpariaeth neu fesur o'r fath sy'n gyfarwyddeb gan yr UE;

ystyr "deddfwriaeth sylfaenol" (*"primary legislation"*) yw –

- (a) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig,
- (b) Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "diwrnod ymadael" (*"exit day"*) yw diwrnod neu amser ar ddiwrnod a benodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn unol ag is-adran (4);

ystyr "endid o'r UE" (*"EU entity"*) yw un o sefydliadau'r UE neu unrhyw un o swyddfeydd, cyrff neu asiantaethau'r UE;

ystyr "penderfyniad gan yr UE" (*"EU decision"*) yw –

- (a) penderfyniad o fewn ystyr Erthygl 288 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd; neu
- (b) penderfyniad o dan Erthygl 34(2)(c) flaenorol o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd;

ystyr "rheoliad gan yr UE" (*"EU regulation"*) yw rheoliad o fewn ystyr Erthygl 288 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd;

ystyr "Siarter Hawliau Sylfaenol" (*"Charter of Fundamental Rights"*) yw Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd ddyddiedig 7 Rhagfyr 2000, fel y'i haddaswyd yn Strasbwrg ar 12 Rhagfyr 2007;

“EU tertiary legislation” (“*deddfwriaeth drydyddol yr UE*”) means –

- (a) any provision made under –
 - (i) an EU regulation,
 - (ii) a decision within the meaning of Article 288 of the Treaty on the Functioning of the European Union, or
 - (iii) an EU directive,by virtue of Article 290 or 291(2) of the Treaty on the Functioning of the European Union or former Article 202 of the Treaty establishing the European Community, or
- (b) any measure adopted in accordance with former Article 34(2)(c) of the Treaty on European Union to implement decisions under former Article 34(2)(c), but does not include any such provision or measure that is an EU directive;

“exit day” (“*diwrnod ymadael*”) means a day or a time on a day appointed in regulations made by the Welsh Ministers in accordance with subsection (4);

“member State” (“*Aelod-wladwriaeth*”) (except in the definition of “EU reference”) does not include the United Kingdom;

“Minister of the Crown” (“*un o Weinidogion y Goron*”) has the meaning given by the Ministers of the Crown Act 1975 and also includes the Commissioners for Her Majesty’s Revenue and Customs;

“modify” (“*addasu*”) includes amend, repeal or revoke (and related expressions are to be read accordingly);

“pre-commencement function” (“*swyddogaeth cyn cychwyn*”) has the meaning given by Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006 (see paragraph 1(3) of Part 2 of that Schedule);

“primary legislation” (“*deddfwriaeth sylfaenol*”) means –

- (a) an Act of the Parliament of the United Kingdom,
- (b) a Measure or Act of the National Assembly for Wales;

“public authority” (“*awdurdod cyhoeddus*”) means a public authority within the meaning of section 6 of the Human Rights Act 1998;

“relevant criminal offence” (“*trosedd berthnasol*”) means an offence for which an individual who has reached the age of 18 is capable of being sentenced to imprisonment for a term of more than 2 years (ignoring any enactment prohibiting or restricting the imprisonment of individuals who have no previous convictions);

mae i "swyddogaeth cyn cychwyn" yr ystyr a roddir i "pre-commencement function" gan Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (gweler paragraff 1(3) o Ran 2 o'r Atodlen honno);

ystyr "tribiwnlys" ("*tribunal*") yw unrhyw dribiwnlys y caniateir i achosion cyfreithiol gael eu dwyn ynddo;

ystyr "trosedd berthnasol" ("*relevant criminal offence*") yw trosedd y mae unigolyn sydd wedi cyrraedd 18 oed yn gallu cael ei ddeddfydu i garchar amdani am gyfnod o fwy na 2 flynedd (gan anwybyddu unrhyw ddeddfiad sy'n gwahardd carchariad unigolion nad oes ganddynt unrhyw euogfarnau blaenorol neu sy'n cyfyngu ar garchariad unigolion o'r fath);

mae i "un o Weinidogion y Goron" yr ystyr a roddir i "Minister of the Crown" gan Ddeddf Gweinidogion y Goron 1975 ac mae hefyd yn cynnwys Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

- (2) Yn y Ddeddf hon –
 - (a) pan fo Gweinidogion Cymru yn penodi amser yn ogystal â diwrnod fel y diwrnod ymadael, mae cyfeiriadau at cyn, ar ôl neu ar y diwrnod hwnnw, neu at ddechrau â'r diwrnod hwnnw, i'w darllen yn unol â hynny fel cyfeiriadau at cyn, ar ôl neu ar yr amser hwnnw ar y diwrnod hwnnw neu (yn ôl y digwydd) at ddechrau â'r amser hwnnw ar y diwrnod hwnnw, a
 - (b) pan na fo Gweinidogion Cymru yn penodi amser yn ogystal â diwrnod fel y diwrnod ymadael, mae cyfeiriad at y diwrnod ymadael i'w ddarllen fel cyfeiriad at ddechrau'r diwrnod hwnnw.
- (3) At ddibenion adrannau 14 a 15, gall addasiad fod yn ddatganedig neu'n oblygedig ac mae'n cynnwys gofyniad i gydymffurfio â chyfraith yr UE nad yw'n gymwys mwyach i arfer y swyddogaeth.
- (4) Wrth i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan is-adran (1) at ddibenion y diffiniad o "diwrnod ymadael" –
 - (a) rhaid iddynt roi sylw i unrhyw ddiwrnod neu unrhyw amser ar ddiwrnod a benodir at yr un dibenion neu at ddibenion tebyg mewn neu o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig i roi effaith i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd;
 - (b) ni chânt benodi diwrnod nac amser ar ddiwrnod sy'n digwydd cyn yr adeg y mae'r Cytuniadau yn peidio â bod yn gymwys i'r Deyrnas Unedig yn unol ag Erthygl 50(3) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd.
- (5) Yn is-adran (4)(b), ystyr "y Cytuniadau" yw'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd a'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.
- (6) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at Erthygl 34(2)(c) flaenorol o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd yn gyfeiriadau at yr Erthygl honno fel y cafodd effaith ar unrhyw adeg cyn i Gytuniad Lisbon ddod i rym.
- (7) Mae unrhyw gyfeiriad arall yn y Ddeddf hon at Erthygl o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd neu'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd yn cynnwys cyfeiriad at yr Erthygl honno fel y'i cymhwysir gan Erthygl 106a o Gytuniad Euratom.

“retrospective provision” (“*darpariaeth ôl-weithredol*”), in relation to provision made by regulations, means provision taking effect from a date earlier than the date on which the regulations are made;

“tribunal” (“*tribiwnlys*”) means any tribunal in which legal proceedings may be brought;

“Wales” (“*Cymru*”) has the meaning given by the Government of Wales Act 2006 (see section 158 of that Act);

“withdrawal agreement” (“*cytundeb ymadael*”) means an agreement (whether or not ratified) between the United Kingdom and the EU under Article 50(2) of the Treaty on European Union that sets out the arrangements for the United Kingdom’s withdrawal from the EU.

- (2) In this Act –
 - (a) where the Welsh Ministers appoint a time as well as a day as exit day, references to before, after or on that day, or to beginning with that day, are accordingly to be read as references to before, after or at that time on that day or (as the case may be) to beginning with that time on that day, and
 - (b) where the Welsh Ministers do not appoint a time as well as a day as exit day, a reference to exit day is to be read as a reference to the beginning of that day.
- (3) For the purposes of sections 14 and 15, a modification can be express or implied and includes a requirement to comply with EU law no longer applying to the exercise of the function.
- (4) In making regulations under subsection (1) for the purposes of the definition of “exit day”, the Welsh Ministers –
 - (a) must have regard to any day or any time on a day appointed for the same or similar purposes in or under an Act of the Parliament of the United Kingdom to give effect to the withdrawal of the United Kingdom from the European Union;
 - (b) must not appoint a day or a time on a day that occurs before the moment that the Treaties cease to apply to the United Kingdom in accordance with Article 50(3) of the Treaty on European Union.
- (5) In subsection (4)(b), “the Treaties” means the Treaty on European Union and the Treaty on the functioning of the European Union.
- (6) References in this Act to former Article 34(2)(c) of the Treaty on European Union are references to that Article as it had effect at any time before the coming into force of the Treaty of Lisbon.
- (7) Any other reference in this Act to an Article of the Treaty on European Union or the Treaty on the Functioning of the European Union includes a reference to that Article as applied by Article 106a of the Euratom Treaty.

21 Dod i rym

Daw'r Ddeddf hon i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

22 Diddymu'r Ddeddf hon

Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiddymu'r Ddeddf hon neu unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf hon.

23 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018.

21 Coming into force

This Act comes into force on the day after the day on which this Act receives Royal Assent.

22 Repeal of this Act

The Welsh Ministers may by regulations repeal this Act or any provision of this Act.

23 Short title

The short title of this Act is the Law Derived from the European Union (Wales) Act 2018.

ATODLEN 1
(a gyflwynir gan adran 13)

FFIOEDD A THALIADAU

Pŵer i ddarparu ar gyfer ffioedd neu daliadau: swyddogaethau newydd

- 1 (1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer codi ffioedd neu daliadau eraill, neu mewn cysylltiad â chodi ffioedd neu daliadau eraill, mewn cysylltiad ag arfer swyddogaeth (“y swyddogaeth berthnasol”) sydd gan awdurdod lleol yn rhinwedd darpariaeth a wneir o dan unrhyw un neu ragor o’r adrannau a ganlyn—
 - (a) adran 3 (pwerau i wneud darpariaeth sy’n cyfateb i gyfraith uniongyrchol yr UE);
 - (b) adran 4 (pwerau i ailddatgan deddfiadau sy’n deillio o’r UE);
 - (c) adran 5 (pwerau i bennu darpariaeth a wneir o dan bwerau sy’n ymwneud â’r UE fel un sy’n parhau i gael effaith);
 - (d) adran 9 (pwerau sy’n ymwneud â chydymffurfedd â rhwymedigaethau rhyngwladol);
 - (e) adran 10 (pwerau i weithredu’r cytundeb ymadael);
 - (f) adran 11 (pŵer i weithredu rhwymedigaethau gan yr UE).
- (2) Caiff rheoliadau o dan y paragraff hwn (ymhlith pethau eraill)—
 - (a) pennu’r ffioedd neu’r taliadau neu wneud darpariaeth o ran sut y maent i’w penderfynu;
 - (b) darparu ar gyfer adennill neu waredu unrhyw symiau sy’n daladwy o dan y rheoliadau;
 - (c) rhoi pŵer i’r awdurdod cyhoeddus i wneud, drwy is-ddeddfwriaeth, unrhyw ddarpariaeth y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud o dan y paragraff hwn mewn perthynas â’r swyddogaeth berthnasol.
- (3) Ni chaiff rheoliadau o dan y paragraff hwn—
 - (a) rhoi swyddogaeth i un o Weinidogion y Goron na gosod swyddogaeth arno;
 - (b) dileu nac addasu swyddogaeth cyn cychwyn un o Weinidogion y Goron oni bai bod gwneud hynny yn gysylltiedig â darpariaeth arall sydd wedi ei chynnwys yn y rheoliadau neu’n ganlyniadol iddi.

Pŵer i addasu ffioedd neu daliadau cyn ymadael

- 2 (1) Mae is-baragraff (3) yn gymwys pan fo is-ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaeth (“y ddarpariaeth codi tâl”) ar gyfer codi ffioedd neu daliadau eraill neu mewn cysylltiad â chodi ffioedd neu daliadau eraill—
 - (a) sydd wedi ei gwneud mewn rheoliadau o dan adran 4 neu sy’n cael ei thrin fel pe bai wedi ei gwneud o dan adran 5, a
 - (b) a oedd, yn union cyn y diwrnod ymadael, wedi ei gwneud o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 neu adran 56 o Ddeddf Cyllid 1973.

SCHEDULE 1
(introduced by section 13)

FEES AND CHARGES

Power to provide for fees or charges: new functions

- 1 (1) The Welsh Ministers may by regulations make provision for, or in connection with, the charging of fees or other charges in connection with the exercise of a function (“the relevant function”) that a public authority has by virtue of provision made under any of the following sections –
- (a) section 3 (powers to make provision corresponding to direct EU law);
 - (b) section 4 (powers to restate EU derived enactments);
 - (c) section 5 (powers to specify provision made under EU related powers as continuing to have effect);
 - (d) section 9 (powers relating to compliance with international obligations);
 - (e) section 10 (powers to implement the withdrawal agreement);
 - (f) section 11 (power to implement EU obligations).
- (2) Regulations under this paragraph may (among other things) –
- (a) specify the fees or charges or make provision as to how they are to be determined;
 - (b) provide for the recovery or disposal of any sums payable under the regulations;
 - (c) confer power on the public authority to make, by subordinate legislation, any provision that the Welsh Ministers may make under this paragraph in relation to the relevant function.
- (3) Regulations under this paragraph may not –
- (a) confer or impose a function on a Minister of the Crown;
 - (b) remove or modify a pre-commencement function of a Minister of the Crown unless doing so is incidental to, or consequential on, another provision contained in the regulations.

Power to modify pre-exit fees or charges

- 2 (1) Sub-paragraph (3) applies where subordinate legislation contains provision (“the charging provision”) for, or in connection with, the charging of fees or other charges that –
- (a) is made in regulations under section 4 or is treated as having been made under section 5, and
 - (b) immediately before exit day, was made under section 2(2) of the European Communities Act 1972 or section 56 of the Finance Act 1973.

- (2) Mae is-baragraff (3) hefyd yn gymwys pan fo is-ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaeth a addesir o dan y paragraff hwn.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau sy'n addasu'r is-ddeddfwriaeth at ddibenion—
 - (a) dirymu'r ddarpariaeth codi tâl,
 - (b) newid swm unrhyw un neu ragor o'r ffioedd neu'r taliadau sydd i'w codi,
 - (c) newid sut y mae unrhyw un neu ragor o'r ffioedd neu'r taliadau i'w penderfynu, neu
 - (d) newid fel arall y ffioedd neu'r taliadau y caniateir iddynt gael eu codi mewn perthynas ag unrhyw beth y caniateir i ffioedd neu daliadau gael eu codi mewn cysylltiad ag ef o dan y ddarpariaeth codi tâl.
- (4) Caniateir i reoliadau o dan y paragraff hwn gael eu gwneud cyn y diwrnod ymadael os bydd y ddarpariaeth codi tâl yn dod o fewn is-baragraff (1) ar y diwrnod ymadael.

Cyfyngu ar arfer pŵer o dan baragraff 2

- 3 (1) Pan fo'r ddarpariaeth codi tâl yn cynnwys darpariaeth Deddf 1972 yn unig, ni chaiff rheoliadau o dan baragraff 2 osod na chynyddu trethiant.
- (2) Yn is-baragraff (1), ystyr "darpariaeth Deddf 1972" yw—
 - (a) darpariaeth o fewn paragraff 2(1)(a) a wnaed yn union cyn y diwrnod ymadael o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac nid o dan adran 56 o Ddeddf Cyllid 1973, gan gynnwys darpariaeth o'r fath fel y'i haddesir o dan baragraff 2, neu
 - (b) darpariaeth a wneir o dan baragraff 2 ac sy'n gysylltiedig â darpariaeth o fewn paragraff (a) neu sy'n ychwanegu ati neu yn ei disodli.
- (3) Ni chaiff rheoliadau o dan baragraff 2—
 - (a) rhoi swyddogaeth i un o Weinidogion y Goron na gosod swyddogaeth arno;
 - (b) dileu nac addasu swyddogaeth cyn cychwyn un o Weinidogion y Goron oni bai bod gwneud hynny yn gysylltiedig â darpariaeth arall sydd wedi ei chynnwys yn y rheoliadau neu'n ganlyniadol iddi.

Perthynas â phwerau eraill

- 4 Nid yw'r Atodlen hon yn effeithio ar y pwerau o dan adran 3, 4, 5, 9, 10 neu 11, neu unrhyw bŵer arall sy'n arferadwy ar wahân i'r Atodlen hon, i'w gwneud yn ofynnol i ffioedd neu daliadau eraill gael eu talu, neu i wneud darpariaeth arall mewn perthynas â ffioedd neu daliadau eraill.

- (2) Sub-paragraph (3) also applies where subordinate legislation contains provision modified under this paragraph.
- (3) The Welsh Ministers may by regulations make provision modifying the subordinate legislation for the purposes of—
 - (a) revoking the charging provision,
 - (b) altering the amount of any of the fees or charges that are to be charged,
 - (c) altering how any of the fees or charges are to be determined, or
 - (d) otherwise altering the fees or charges that may be charged in relation to anything in respect of which fees or charges may be charged under the charging provision.
- (4) Regulations under this paragraph may be made before exit day if the charging provision will fall within sub-paragraph (1) on exit day.

Restriction on exercise of power under paragraph 2

- 3 (1) Where the charging provision consists solely of 1972 Act provision, regulations under paragraph 2 may not impose or increase taxation.
- (2) In sub-paragraph (1), “1972 Act provision” means—
 - (a) provision within paragraph 2(1)(a) that immediately before exit day was made under section 2(2) of the European Communities Act 1972 and not under section 56 of the Finance Act 1973, including such provision as modified under paragraph 2, or
 - (b) provision that is made under paragraph 2 and is incidental to, or supplements or replaces, provision within paragraph (a).
- (3) Regulations under paragraph 2 may not—
 - (a) confer or impose a function on a Minister of the Crown;
 - (b) remove or modify a pre-commencement function of a Minister of the Crown unless doing so is incidental to, or consequential on, another provision contained in the regulations.

Relationship to other powers

- 4 This Schedule does not affect the powers under section 3, 4, 5, 9, 10 or 11, or any other power exercisable apart from this Schedule, to require the payment of, or to make other provision in relation to, fees or other charges.

ATODLEN 2

(a gyflwynir gan adran 19(3))

Y WEITHDREFN AR GYFER GWNEUD RHEOLIADAU

Rheoliadau'r weithdrefn uwch

- 1 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon sydd –
- (a) yn sefydlu awdurdod cyhoeddus newydd;
 - (b) yn rhoi swyddogaethau i awdurdod cyhoeddus;
 - (c) yn gosod neu'n cynyddu ffi mewn cysylltiad â swyddogaeth sy'n arferadwy gan awdurdod cyhoeddus;
 - (d) yn creu trosedd neu'n ehangu cwmpas trosedd;
 - (e) yn creu neu'n diwygio pŵer i ddeddfu;
 - (f) yn addasu deddfwriaeth sylfaenol;
 - (g) wedi eu gwneud o dan adran 11, adran 12 neu adran 22;
- ond nid yw'r paragraff hwn yn gymwys os yw paragraff 4 yn gymwys.
- (2) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol bwrw ymlaen i wneud y rheoliadau rhaid iddynt osod drafft o'r rheoliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghyd â datganiad sy'n nodi barn Gweinidogion Cymru o ran a ddylai'r weithdrefn yn is-baragraffau (6) i (14) fod yn gymwys.
- (3) Os yw'r rheoliadau drafft yn cynnwys darpariaeth sy'n addasu deddfwriaeth sylfaenol, rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n esbonio pam bod angen y ddarpariaeth.
- (4) Os, ar ôl i'r cyfnod o 40 o ddiwrnodau ddod i ben, yw'r rheoliadau drafft a osodwyd o dan is-baragraff (2) wedi eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ar ffurf y rheoliadau drafft, oni bai bod y weithdrefn yn is-baragraffau (6) i (14) yn gymwys.
- (5) Mae'r weithdrefn yn is-baragraffau (6) i (14) yn gymwys i'r rheoliadau drafft yn lle'r weithdrefn yn is-baragraff (4) –
- (a) os yw'r rheoliadau drafft i'w gwneud o dan adran 12 neu adran 22,
 - (b) os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu o fewn y cyfnod o 30 o ddiwrnodau y dylai'r weithdrefn fod yn gymwys, neu
 - (c) os yw pwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a chanddo'r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft yn argymhell o fewn y cyfnod o 30 o ddiwrnodau y dylai'r weithdrefn fod yn gymwys ac nad yw'r Cynulliad, drwy benderfyniad, yn gwrthod yr argymhelliad o fewn y cyfnod hwnnw.
- (6) Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i –
- (a) unrhyw sylwadau,
 - (b) unrhyw benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac

SCHEDULE 2
(Introduced by section 19(3))

PROCEDURE FOR MAKING REGULATIONS

Enhanced procedure regulations

- 1 (1) This paragraph applies to a statutory instrument containing regulations made under this Act that—
- (a) establish a new public authority;
 - (b) confer functions on a public authority;
 - (c) impose or increase a fee in respect of a function exercisable by a public authority;
 - (d) create, or widen the scope of, a criminal offence;
 - (e) create or amend a power to legislate;
 - (f) modify primary legislation;
 - (g) are made under section 11, section 12 or section 22;
- but this paragraph does not apply if paragraph 4 applies.
- (2) If the Welsh Ministers consider it appropriate to proceed with the making of regulations they must lay a draft of the regulations before the National Assembly for Wales along with a statement setting out the Welsh Ministers' view on whether the procedure in sub-paragraphs (6) to (14) should apply.
- (3) If the draft regulations contain provision modifying primary legislation, the Welsh Ministers must lay a statement before the National Assembly for Wales that explains why the provision is needed.
- (4) If after the expiry of the 40-day period the draft regulations laid under sub-paragraph (2) are approved by a resolution of the National Assembly for Wales, the Welsh Ministers may make regulations in the terms of the draft regulations, unless the procedure in sub-paragraphs (6) to (14) apply.
- (5) The procedure in sub-paragraphs (6) to (14) applies to the draft regulations instead of the procedure in sub-paragraph (4) if—
- (a) the draft regulations are to be made under section 12 or section 22,
 - (b) the National Assembly for Wales resolves within the 30-day period that the procedure should apply, or
 - (c) a committee of the National Assembly for Wales charged with reporting on the draft regulations recommends within the 30-day period that the procedure should apply and the Assembly does not by resolution reject the recommendation within that period.
- (6) The Welsh Ministers must have regard to—
- (a) any representations,
 - (b) any resolution of the National Assembly for Wales, and

- (c) unrhyw argymhellion gan bwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a chanddo'r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft, a wneir yn ystod y cyfnod o 60 o ddiwrnodau o ran y rheoliadau drafft.
- (7) Os, ar ôl i'r cyfnod o 60 o ddiwrnodau ddod i ben, yw Gweinidogion Cymru yn dymuno gwneud rheoliadau ar ffurf y drafft, rhaid iddynt osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddatganiad –
- (a) sy'n datgan a gyflwynwyd unrhyw sylwadau, a
 - (b) sydd, os cyflwynwyd unrhyw sylwadau, yn rhoi manylion y sylwadau hynny.
- (8) Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl gosod y datganiad, wneud rheoliadau ar ffurf y drafft os y'i cymeradwyir drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (9) Ond caiff pwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a chanddo'r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft, ar unrhyw adeg ar ôl i ddatganiad gael ei osod o dan is-baragraff (7) a chyn i'r rheoliadau drafft gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad o dan is-baragraff (8), argymell nad oes unrhyw drafodion pellach mewn perthynas â'r rheoliadau drafft.
- (10) Pan fo argymhelliad wedi ei wneud gan bwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-baragraff (9) mewn perthynas â rheoliadau drafft, ni chaniateir unrhyw drafodion mewn perthynas â'r drafft o dan is-baragraff (8) oni bai bod yr argymhelliad wedi ei wrthod drwy benderfyniad gan y Cynulliad.
- (11) Os, ar ôl i'r cyfnod o 60 o ddiwrnodau ddod i ben, yw Gweinidogion Cymru yn dymuno bwrw ymlaen i wneud y rheoliadau drafft ond gyda newidiadau sylweddol, rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru –
- (a) y rheoliadau drafft diwygiedig,
 - (b) datganiad –
 - (i) sy'n rhoi crynodeb o'r newidiadau a gynigir,
 - (ii) sy'n datgan a gyflwynwyd unrhyw sylwadau, a
 - (iii) sydd, os cyflwynwyd unrhyw sylwadau, yn rhoi manylion y sylwadau hynny.
- (12) Os yw'r rheoliadau drafft diwygiedig wedi eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, caiff Gweinidogion Cymru wneud y rheoliadau ar ffurf y rheoliadau drafft diwygiedig.
- (13) Ond caiff pwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a chanddo'r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft diwygiedig, ar unrhyw adeg ar ôl i ddatganiad gael ei osod o dan is-baragraff (11) a chyn i'r rheoliadau drafft gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad o dan is-baragraff (12), argymell nad oes unrhyw drafodion pellach mewn perthynas â'r rheoliadau drafft diwygiedig.
- (14) Pan fo argymhelliad wedi ei wneud gan bwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-baragraff (13) mewn perthynas â rheoliadau drafft diwygiedig, ni chaniateir unrhyw drafodion mewn perthynas â'r drafft diwygiedig o dan is-baragraff (12) oni bai bod yr argymhelliad wedi ei wrthod drwy benderfyniad gan y Cynulliad.

- (c) any recommendations of a committee of the National Assembly for Wales charged with reporting on the draft regulations,
made during the 60-day period with regard to the draft regulations.
- (7) If, after the expiry of the 60-day period, the Welsh Ministers wish to make regulations in the terms of the draft, they must lay before the National Assembly for Wales a statement –
- (a) stating whether any representations were made, and
 - (b) if any representations were made, giving details of them.
- (8) The Welsh Ministers may, after the laying of a statement, make regulations in the terms of the draft if it is approved by a resolution of the National Assembly for Wales.
- (9) But a committee of the National Assembly for Wales charged with reporting on the draft regulations may, at any time after the laying of a statement under sub-paragraph (7) and before the draft regulations are approved by the Assembly under sub-paragraph (8), recommend that no further proceedings be taken in relation to the draft regulations.
- (10) Where a recommendation is made by a committee of the National Assembly for Wales under sub-paragraph (9) in relation to draft regulations, no proceedings may be taken in relation to the draft under sub-paragraph (8) unless the recommendation is rejected by resolution of the Assembly.
- (11) If after the expiry of the 60-day period the Welsh Ministers wish to proceed with the draft regulations but with material changes, the Welsh Ministers must lay before the National Assembly for Wales –
- (a) the revised draft regulations,
 - (b) a statement –
 - (i) giving a summary of the changes proposed,
 - (ii) stating whether any representations were made, and
 - (iii) if any representations were made, giving details of them.
- (12) If the revised draft regulations are approved by a resolution of the National Assembly for Wales, the Welsh Ministers may make the regulations in the terms of the revised draft regulations.
- (13) But a committee of the National Assembly for Wales charged with reporting on the revised draft regulations may, at any time after the laying of a statement under sub-paragraph (11) and before the draft regulations are approved by the Assembly under sub-paragraph (12), recommend that no further proceedings be taken in relation to the revised draft regulations.
- (14) Where a recommendation is made by a committee of the National Assembly for Wales under sub-paragraph (13) in relation to revised draft regulations, no proceedings may be taken in relation to the revised draft under sub-paragraph (12) unless the recommendation is rejected by resolution of the Assembly.

- (15) At ddibenion y paragraff hwn mae rheoliadau wedi eu gwneud ar ffurf y rheoliadau drafft neu'r rheoliadau drafft diwygiedig os nad ydynt yn cynnwys newidiadau sylweddol i'w darpariaethau.
- (16) Yn y paragraff hwn, mae cyfeiriadau at y cyfnodau "30 o ddiwrnodau", "40 o ddiwrnodau" a "60 o ddiwrnodau" mewn perthynas ag unrhyw reoliadau drafft yn gyfeiriadau at y cyfnodau o 30, 40 a 60 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cafodd y rheoliadau drafft eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (17) At ddibenion is-baragraff (16) nid oes unrhyw ystyriaeth i'w rhoi i unrhyw amser pan yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod.

Datgelu sylwadau

- 2 (1) Pan fo person sy'n cyflwyno sylwadau am reoliadau drafft neu reoliadau drafft diwygiedig o dan baragraff 1 wedi gofyn i Weinidogion Cymru beidio â'u datgelu, ni chaiff Gweinidogion Cymru eu datgelu o dan baragraff 1 os neu i'r graddau y byddai gwneud hynny (gan ddiystyru unrhyw gysylltiad â thrafodion yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru) yn gyfystyr â thorri cyfrinachedd y gall unrhyw berson ddwyn achos yn ei gylch.
- (2) Os yw gwybodaeth sydd mewn sylwadau yn ymwneud â pherson arall, nid oes angen i Weinidogion Cymru ddatgelu'r wybodaeth o dan baragraff 1 os neu i'r graddau –
 - (a) y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru y gallai datgelu'r wybodaeth honno effeithio'n andwyol ar fuddiannau'r person arall hwnnw; a
 - (b) y mae Gweinidogion Cymru wedi methu â chael cydsyniad y person arall hwnnw i'r wybodaeth gael ei datgelu.
- (3) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) yn effeithio ar unrhyw ddatgeliad y gofynnir amdano gan bwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a chanddo'r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft neu'r rheoliadau drafft diwygiedig, ac a wneir i'r pwyllgor.

Rheoliadau'r weithdrefn safonol

- 3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon, oni bai bod paragraff 1 neu 4 yn gymwys.
- (2) Ni chaniateir i'r rheoliadau gael eu gwneud oni bai bod drafft o'r rheoliadau wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

Rheoliadau'r weithdrefn frys

- 4 (1) Caniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon (ac eithrio adran 11, adran 12 ac adran 22) gael ei wneud heb i ddrafft ohono gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad, os yw'n cynnwys datganiad bod Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, fod angen gwneud y rheoliadau heb osod na chymeradwyo drafft.

- (15) For the purposes of this paragraph, regulations are made in the terms of draft regulations or revised draft regulations if they contain no material changes to their provisions.
- (16) In this paragraph, references to the “30-day”, “40-day” and “60-day” periods in relation to any draft regulations are to the periods of 30, 40 and 60 days beginning with the day on which the draft regulations were laid before the National Assembly for Wales.
- (17) For the purposes of sub-paragraph (16), no account is to be taken of any time during which the National Assembly for Wales is dissolved or in recess for more than four days.

Disclosure of representations

- 2 (1) Where a person making representations about draft regulations or revised draft regulations under paragraph 1 has requested the Welsh Ministers not to disclose them, the Welsh Ministers must not disclose them under paragraph 1 if or to the extent that to do so would (disregarding any connection with proceedings in the National Assembly for Wales) constitute a breach of confidence actionable by any person.
- (2) If information in representations relates to another person, the Welsh Ministers need not disclose the information under paragraph 1 if or to the extent that –
 - (a) it appears to the Welsh Ministers that the disclosure of that information could adversely affect the interests of that other person; and
 - (b) the Welsh Ministers have been unable to obtain the consent of that other person to the disclosure.
- (3) Sub-paragraphs (1) and (2) do not affect any disclosure that is requested by, and made to, a committee of the National Assembly for Wales charged with reporting on the draft regulations or revised draft regulations.

Standard procedure regulations

- 3 (1) This paragraph applies to a statutory instrument containing regulations under this Act, unless paragraph 1 or 4 applies.
- (2) The regulations may not be made unless a draft of the regulations has been laid before and approved by a resolution of the National Assembly for Wales.

Urgent procedure regulations

- 4 (1) A statutory instrument containing regulations under this Act (except section 11, section 12 and section 22) may be made without a draft being laid before, and approved by resolution of, the National Assembly for Wales if it contains a declaration that the Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make the regulations without a draft being laid and approved.

- (2) Ar ôl i offeryn gael ei wneud yn unol ag is-baragraff (1), rhaid i Weinidogion Cymru ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghyd â datganiad sy'n esbonio amgylchiadau'r brys a pham, ym marn Gweinidogion Cymru, yr oedd angen gwneud y rheoliadau heb osod na chymeradwyo drafft.
- (3) Mae rheoliadau sydd wedi eu cynnwys mewn offeryn a wneir yn unol ag is-baragraff (1) yn peidio â chael effaith ar ddiwedd cyfnod o 30 o ddiwrnodau, sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff yr offeryn ei wneud oni bai bod yr offeryn, yn ystod y cyfnod hwnnw, wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (4) Wrth gyfrifo'r cyfnod o 30 o ddiwrnodau, nid oes unrhyw ystyriaeth i'w rhoi i unrhyw amser pan yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod.
- (5) Os yw rheoliadau yn peidio â chael effaith o ganlyniad i is-baragraff (3), nid yw hynny –
 - (a) yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wnaed yn flaenorol o dan y rheoliadau, neu
 - (b) yn atal gwneud rheoliadau newydd.

Y weithdrefn ar ailarfer pwerau penodol

- 5 Caiff offeryn, y mae paragraff 1, 3 neu 4 yn gymwys iddo, sy'n dirymu, yn diwygio neu'n ailddeddfu unrhyw offeryn o'r fath (er gwaethaf adran 14 o Ddeddf Dehongli 1978) fod yn ddarostyngedig i weithdrefn wahanol o dan yr Atodlen hon i'r weithdrefn yr oedd yr offeryn a oedd yn cynnwys y rheoliadau gwreiddiol yn ddarostyngedig iddi.

Cyfuniadau o offerynnau

- 6 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon sy'n ddarostyngedig i weithdrefn o dan baragraff 1, 3 neu 4.
- (2) Caiff yr offeryn statudol hefyd gynnwys rheoliadau o dan ddeddfiad arall a wneir drwy offeryn statudol sy'n ddarostyngedig i weithdrefn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n darparu ar gyfer diddymu'r offeryn ar ôl iddo gael ei wneud.
- (3) Pan fo rheoliadau wedi eu cynnwys fel y'i crybwyllir yn is-baragraff (2), y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn statudol yw'r weithdrefn a grybwyllir yn is-baragraff (1) ac nid y weithdrefn a grybwyllir yn is-baragraff (2).
- (4) Nid yw'r paragraff hwn yn atal cynnwys rheoliadau eraill mewn offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon.

- (2) After an instrument is made in accordance with sub-paragraph (1), the Welsh Ministers must lay it before the National Assembly for Wales along with a statement explaining the circumstances of the urgency and why, in the Welsh Ministers' opinion, it was necessary to make the regulations without a draft being laid and approved.
- (3) Regulations contained in an instrument made in accordance with sub-paragraph (1) cease to have effect at the end of a period of 30 days, beginning with the day on which the instrument is made unless, during that period, the instrument is approved by a resolution of the National Assembly for Wales.
- (4) In calculating the period of 30 days, no account is to be taken of any time during which the National Assembly for Wales is dissolved or in recess for more than four days.
- (5) If regulations cease to have effect as a result of sub-paragraph (3), that does not –
 - (a) affect the validity of anything previously done under the regulations, or
 - (b) prevent the making of new regulations.

Procedure on re-exercise of certain powers

- 5 An instrument to which paragraph 1, 3 or 4 applies that revokes, amends or re-enacts any such instrument may (despite section 14 of the Interpretation Act 1978) be subject to a different procedure under this Schedule from the procedure to which the instrument containing the original regulations was subject.

Combinations of instruments

- 6
- (1) Sub-paragraph (2) applies to a statutory instrument containing regulations under this Act that is subject to a procedure under paragraph 1, 3 or 4.
 - (2) The statutory instrument may also include regulations under another enactment that are made by statutory instrument subject to a procedure before the National Assembly for Wales that provides for the annulment of the instrument after it has been made.
 - (3) Where regulations are included as mentioned in sub-paragraph (2), the procedure applicable to the statutory instrument is the procedure mentioned in sub-paragraph (1) and not the procedure mentioned in sub-paragraph (2).
 - (4) This paragraph does not prevent the inclusion of other regulations in a statutory instrument that contains regulations under this Act.



Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), part of Williams Lea Tag, ac ar gael o:

Arlein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

Archebion ffacs: 0333 202 5080

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn Testun: 0333 202 5077

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office), part of Williams Lea Tag, and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070

Fax orders: 0333 202 5080

E-mail: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0333 202 5077

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-12002-8



9 780348 120028